

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 476 • Ebrill 2017 • 50c

Ymatebwr Cyntaf newydd i Ddyffryn Ogwen



Bellach mae gan Ddyffryn Ogwen ddau Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned (YCG) yn darparu gofal brys hanfodol cyn i'r parafeddygon gyrraedd. Mae David Gale wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol ac wedi ymuno â Barry Phillips, sy'n aelod hirsefydlog o YCG.

Mae Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned yn wirfoddolwyr sy'n rhan o Wasanaeth Ambiwylans Cymru, ac maent yn cynnig gofal brys mewn achosion megis trawiadau

ar y galon lle mae amser yn hanfodol. Maent yn cario diffibrilydd ac ocsigen yn ogystal â bag llawn o offer i drin argyfyngau o bob math.

Er bod y Gwasanaeth Ambiwylans wedi darparu llawer o offer David, mae o'n codi arian i brynu diffibrilydd newydd. Mae cynghorau cymunedol Bethesda, Llanllechid a Llandygai i gyd wedi cyfrannu'n hael tuag at hyn, a bydd David yn codi'r arian sy'n weddill yn y misoedd nesaf.



PESDA ROC 2017

MAFFIA MR HUWS

FFUG, RADIO RHYDD

& Dj Morrison

Nos Sul 30.4.17 - 7.30yh - £10



PESDA ROC 2017

LASTIGBAND

ARGRPH, PHALCONS

& Dj Delweddau Hen Dduwiau

Nos Sadwrn 29.4.17 - 7.30yh - £5

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Dewi Llewelyn Siôn.

Y golygydd ym mis Mai fydd
Trystan Pritchard, 27 Allt Penybryn,
Bethesda, LL57 3DB
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 03 Mai
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 18 Mai**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen

- Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor

- Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon

Palas Print

Porthaethwy

Awen Menai

Rhiwlas

Garej Beran

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

**Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan**

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Dyddiadur y Dyffryn

Ebrill

- 22 Bore Coffi Cymdeithas Jerusalem.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
29 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty
Gwynedd – Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

Mai

- 04 Sefydliad y Merched Carneddi.
Cefnfaes am 7.00.
04 Etholiadau Cyngor Gwynedd -
Wardiau Ogwen a Gerlan/Rachub.
7.00yb – 10.00yh.
06 Bore Coffi Neuadd Talgai.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
08 Merched y Wawr Tregarth. “Hyder
mewn Lliwiau”. Festri Shiloh am
7.30.
10 Clwb Llanllechid. Festri Carmel
am 2.00.
11 'Cymdeithas Jerusalem. Taith a
Swper.
13 Bore Coffi Cymorth Cristnogol.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
13 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y
Brenin. 10.00 – 12.00.
13 Marchnad Ogwen. Neuadd
Ogwen. 9.30 – 1.30.
18 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.
20 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
21 Cymanfa Ysgolion Sul. Capel
Carmel Llanllechid am 10.30.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Rhoddion i'r Llais

- £10.00 Er cof am Thomas Alfred, Robert, Ceinwen a Cyril oddi wrth Doreen, Maes Coetmor.
- £10.00 Di-enw, Ynys Môn.
- £100.00 Cyngor Chwaraeon Ysgol Dyffryn Ogwen.
- £5.00 Di-enw, Bethesda.
- £250.00 Cyngor Cymuned Llandygai.
- £5.00 Er cof am Vernon O'Brien, a fuasai'n 84 oed ar 20 Ebrill, oddi wrth Llewela.
- £500.00 Cyngor Cymuned Pentir.
- £4.50 Andrew a Helen Speddy, Pantglas, Bethesda.
- £400.00 Cyngor Cymuned Bethesda
- £100.00 Cyngor Cymuned Llanllechid

Diolch yn fawr.

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Ebrill

- £30.00 (55) Enid Lloyd Davies, Bryn Derwas, Talybont.
- £20.00 (118) Gwenno Evans, Eryl, Stad Coetmor.
- £10.00 (174) Jo Oliver, Ffordd Bangor, Bethesda.
- £5.00 (40) Barbara Owen, Rhos y Nant, Bethesda.

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

TEMPLE MORRIS A'I FAN

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com



Perfformiad o'r Messiah

Gan Andre Lomozik

Dychmygwch brynhawn Sadwrn braf o Fedi 1860 yn chwarel y Penrhyn. Dim sŵn o'r graig yn cael ei chwythu, na'r dynion yn hollti'r llechi, dim ond sŵn canu'r Messiah. Dyma fel mae adroddiad yn y North Wales Chronicle yn croniclo'r hanes.

Roedd y côr yn cynnwys sawl corawl o eglwysi'r dyffryn. Roedd côr Eglwys Llanllechid, St. Ann's, Glanogwen a Llandegai, ynghyd a chorau capeli'r fro, Carmel (Annibynwyr), Peniel, Llanllechid (Methodistiaid), Jerusalem (Methodistiaid), Bethesda (Annibynwyr), Shiloh (Wesleaid), Carneddi (Methodistiaid), Siloam (Wesleaid). Rhif y côr unedig oedd tua 500. Mr Thomas, St Ann's a Mr Jones Llandegai oedd yn gofalu am yr harmoniwm, a Mr O. Davies (Eos Llechid) Mr D. Roberts, Mr J. Parry a Mr W. Williams oedd yr arweinyddion.

Mae'r gohebydd yn dweud mai menter newydd oedd hon. A gan fod y tywydd yn hynod o braf, ac enwogrwydd yr ardal am ei chorau yn fawr, a mynediad yn rhad ac am ddim, roedd y disgwyl yn fawr, ac ni siomwyd. Ychydig ar ôl un o'r gloch y prynhawn dechreuodd tyrfaoedd enfawr ymgynnull ac roedd y ffyrdd yn ferw gyda phobl yn anelu am y chwarel, yr hen a'r ifanc. Nid oedd yr un tŷ yn yr ardal heb ei gynrychioli ymysg y gwrandawyr. Ac roedd holl siopau'r ardal wedi cau er mwyn bod yn bresennol yn yr achlysur cerddorol mawreddog yma. Roedd hwn yn ddiwrnod gwyliau ychwanegol i drigolion yr ardal. (Gan fod etifedd Penrhyn, sef George Sholto Douglas-Pennant, a Miss Pamela Rushout, o Gloucestershire, wedi priodi yn St George's Church, Hanover-square, Llundain, yr un wythnos. Yn ôl y papur, roedd holl weithwyr y Penrhyn wedi derbyn diwrnod i ffwrdd o'u gwaith a hanner coron o arian ychwanegol ar ben eu cyflog, swllt a chwech i'r rhai o dan un ar bymtheg oed, (i wario fel ag y mynnont, i ddathlu'r achlysur). Roedd ymwelwyr o Fangor, Caernarfon, Beaumaris, Caer a bron pob pentref rhyngddynt wedi cael eu cynrychioli. Amcangyfrifwyd bod oddeutu 10,000 yn bresennol, ac oni bai fod y cynhaeaf yn galw byddai llawer mwy o weithwyr amaethyddol wedi bod yn bresennol. Ychwanegwyd at yr adloniant gan y 'Penrhyn Volunteers', tua 200 ohonynt yn eu gwisg milwrol ynghyd â'u seindorf yn chwarae sawl cân yn ystod yr egwyl.

Roedd y côr wedi ei osod mewn ffurf sgwâr a'r harmoniums o boptu i'r arweinydd, gyda'r 'treble voices' ar un ochr, yr alto, tenor ar bäs yn cwblhau'r sgwâr. Roedd y band yn sefyll ychydig tu cefn i'r côr ac roeddynt i gyd yn sefyll ar un o'r ponciau ym mhen

pellu'r chwarel. Roedd y gynulleidfa wedi eistedd ar dri o'r ponciau o amgylch, gyda'r rhai mwy anturus wedi dringo i uchder yng nghefn y twll. Roedd yn anodd iawn dychmygu golygfa fwy trawiadol. Nid oedd coliseum Titus, o ran mawredd, i'w gymharu â mynyddoedd Arfon oddi amgylch. Pe rifai'r côr 10,000 ni fyddai'r olygfa ddim mwy trawiadol ar yr edrychiad cyntaf. Eos Llechid (Mr O. Davies) arweinydd Eglwys Llanllechid, a arweiniodd y côr yn 'And the glory of the Lord', 'And he shall purify', 'O thou that tellest' a 'For Unto us a child is born', a'r cyfan wedi eu canu â manwl gywirdeb. Roedd grym y côr yn canu'r cytgan yn berffaith ac yn dangos eu bod yn cadw amser â'u gilydd. Rhoddwyd cymeradwyaeth fawr iddynt. Arweiniodd Mr O. Davies gydag egni ac roedd yn amlwg ei fod yn dallt ei waith fel arweinydd. Canwyd 'Glory to God', 'His Yoke is easy', 'Behold the Lamb of God' ac 'All we like sheep' dan arweiniad Mr John Parry, Jerusalem. Derbyniodd y côr ganmoliaeth uchel am y canu dan ei ofal yntau. Mr William Williams, capel Shiloh Tregarth oedd yr arweinydd tra bod y côr yn canu 'Let all the angels', 'The Lord gave the word', 'Their sound is gone out' a 'Let us break'. Ac er mai Mr Williams oedd yr arweinydd ieuengaf, gwnaeth ei waith yn ardderchog, ac mae yn dangos gallu mawr i'r dyfodol. Mr David Roberts (Alawydd) arweiniodd y côr yn y caneuon 'Since by man came death', 'By man came also the resurrection', 'For a sin Adam all die', 'Even so Christ shall all be made alive', 'Worthy is the Lamb', the 'Amen chorus, a'r 'Hallelujah chorus. Ar gais 'Col. The Hon. Douglas-Pennant' canodd y côr 'The Old Hundred' gyda Mr David Roberts yn arwain, roedd y gân yn haeddiannol i ddod a'r oratorio i ben. Chwaraeodd y band yr anthem genedlaethol, a gwasgarodd pawb heb fath o ddamwain i ddifetha'r profiad i'r lluoedd.

Mae'r gohebydd yn dweud ei fod yn deall ei bod yn bosib codi côr o 1,000 o leisiau yn yr ardal. Â'i fod yn meddwl y buasai hyn yn syniad rhagorol, yn enwedig os byddant yn canu hen anthemau a salmau Cymraeg, ac y byddai hyn yn diogelu ein caneuon rhag diflannu i ebargofiant. Mi fyddai gwybodaeth Mr Owen Davies, yn gwarantu y byddai hyn yn dod a'r côr i safon genedlaethol.

(Diolch yn fawr i'r Dr John Ll. Williams, am dynnu fy sylw at yr erthygl, ac iddo ef a Lowri, ei ferch, am y wefan arbennig o ddiddorol, 'Hanes Dyffryn Ogwen - Rhai nodiadau am safleoedd diddorol yn Nyffryn Ogwen'.)

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Cylch Meithrin Llanllechid

Disgo Pasg
Diolch yn fawr i bawb a wnaeth gefnogi Cylch Meithrin Llanllechid yn eu disgo Pasg. Diolch hefyd i'r holl gwmnïau lleol am y rhoddion caredig ac i bwyllgor codi arian a rhieni am drefnu disgo mor llwyddianus. Codwyd dros £400.00 at y Cylch.

Mis Medi
Os ydych yn dymuno i'ch plentyn ymuno â ni ym mis Medi, cysylltwch â ni cyn gynted ag y bo modd, gan fod y rhestr yn llenwi'n gyflym. Eboost: cmlanllechid@hotmail.com. Debbie Griffiths, Arweinydd Cylch Meithrin Llanllechid. 07717534244.

Diolch
Dymuna teulu'r diweddar Adrian Williams, 5 Bron Bethel, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Huw John Hughes am ei eiriau caredig ddydd yr angladd ac i Gareth Williams am y trefniadau trylwyr ac urddasol. Hoffai Ronald Parry a'r teulu, 5 Hen Ysgol, ddiolch i bawb am yr holl arwyddion o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain a hen nain annwyl iawn, Marilyn Parry. Diolch am yr holl gardiau a rhoddion er cof, ac yn arbennig i'r Parchedig Huw John Hughes am ei wasanaeth ddydd yr angladd ac i Gareth Williams am y trefniadau trylwyr.

Capel Carmel
Trefn Gwasanaethau
Ebrill 23: Y Gweinidog.
Ebrill 30: Parchg. Athro Euros Wyn Jones.
Mai 7: Y Gweinidog (Cymun).
Mai 14: Oedfa Cymorth Cristnogol.
Mai 21: Cymanfa Ysgolion Sul Yng Ngharmel. (10.30yb.)
Oefaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Pysur bob nos Wener am 6.30yh

Salwch
Bu Anna Mair yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn triniaeth. Da deall dy fod gartref erbyn hyn ac wedi dechrau yn ôl yn y coleg. Hefyd, bu Mrs. Heddwen Jones, Rhos y Coed, yn yr ysbyty am gyfnod ond mae hithau gartref erbyn hyn. Cofion cynnes atoch, Heddwen a Thomas.
Rydym yn anfon ein cofion at sawl un o'n haelohau sy'n sâl gartref, sef: Mrs. Buddug Hughes, Carneddi, Mrs. Betty Jones,

Tanybwllch, Mrs. Dorothy Williams, Bron Arfon, Mrs. Phyllis Evans, Plas Ogwen, Mr. Emyr Griffith, Plas Ogwen, a Mrs. Phyllis Lloyd Parry, Ffordd Ffrydlas.

Yr Ysgol Sul
Sul y Mamau
Ar ôl gorffen gwneud cardiau lliwgar yn anrheg i'w mamau yn yr Ysgol Sul, aethom am dro i'r cae chwarae yn Rachub. Roedd hi'n fore braf o Wanwyn, a gwelsom flodau lliwgar mewn potiau y tu allan i'r tai yn Rhes Gefn. Cyrraedd y cae chwarae a chlywed yr afon yn byrlymu, yr adar yn canu, y defaid a'r ŵyn yn brefu a phlant yn chwerthin dros y lle!

"Y mae Duw yn neffro'r Gwanwyn, Ef yw awdur popeth byw..."



Dyma rai o'r plant ar y sglefren yn y cae chwarae.

Diolch
Hoffai Anna Mair Tugwell Williams ddiolch o waelod calon am y cardiau a'r negeseuon a gafodd ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar. Mae hi'n gwella'n raddol bob dydd.

Clwb Llanllechid
Cynhaliwyd Clwb Llanllechid ar bnawn braf iawn Mawrth 15 yn Festri Capel Carmel. Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod. Anfonwyd ein cofion at Gwenno sydd dal yn yr ysbyty.
Yna croesawyd Iwan a Gareth atom. Mae'r ddau yn swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu. Cawsom bnawn diddorol a llond lle o chwerthin. Dangoswyd ffilm am Atgofion Ogwen a'r gerddoriaeth gan gbach. Cafwyd hanes am y hen amser cyn bod son am iechyd a diogelwch gan Glyn Thomas, Alun Thomas ac Ian Hughes a hanes am Wi Rich un o gymeriadau'r ardal.
Paratowyd y te gan Rita a Medi. Rhoddwyd y raffl gan Glenys, ac fe enillwyd gan Margret Owen. Bydd y cyfarfod nesaf ar bnawn Mercher Ebrill 12 yn Festri Carmel.

Profedigaeth
Bu farw Stan Williams, 2 Yr Hen Ysgol, Rachub, ddechrau mis Mawrth wedi cyfnod mewn cartref gofal. Am flynyddoedd bu

Stan yn ofalwr yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Cynhaliwyd y cynhebrwng yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn a'i wraig June, ei ferched Siân a Meinir, a'r teulu i gyd.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor. Da iawn Adran Bro Dyffryn Ogwen am ddod yn fuddugol ar y Parti Unsain a'r Parti Cerdd Dant, ac i Gwenno Llwyd Beech am ennill ar yr Unawd Bl 2 ac iau a'r Unawd Cerdd Dant. Pob hwyl wrth fynd ymlaen i gynrychioli'r ardal yn y Genedlaethol ym Mro Ogwr.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu Norma a fu farw fel yr oedd y Llais yn mynd i'r wasg. Cofion at ei gwr Eric, ei merched Siân, Annwen, Nia a'u teuluoedd, ei chwirydd Sandra, Gillian, Anna a Sharon a'r holl deulu estynedig.
Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael neu wedi bod yn yr ysbyty, yn eu plith Donna Roberts a Dr Goronwy Wyn Roberts.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog
Mai 7: Dilys a Robert Thomas.
Mai 14: Buddug Medi, Y Bala.
Mai 21: Parchg. Carys Ann.
Mai 28: Parchg. Ifor Jones.
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÏ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai Cynllun “Agor y Llyfr”

Mae Jennifer Roberts, Cydlynnydd
Gweithgareddau'r Ifanc, Bro Ogwen a thim
o aelodau Eglwys St Tegai a Gelli Tregarth
yn arwain gwasanaeth pob pythefnos yn
Ysgol Llandygai gan ddarllen ac actio
storïau o'r Beibl. Ceir croeso cynnes gan y
plant a chryn awydd i ymuno yn yr actio!

Codi Arian i Gronfa'r Eglwys

Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf
trefnodd Liz Bestwick Noson Helfa Chwilen
(Beetle Drive) yn Neuadd Talgai Llandygai
ar Fawrth 14eg. Cafwyd noson hwyliog a
chodwyd £70.

Diolch hefyd i bentrefwyr Llandygai
am eu rhodd caredig o £40 tuag at
Gronfa Atgyweirio yr Eglwys yn dilyn eu
dathliadau Gŵyl Dewi Sant.

Yn stondin Ysbyty Gwynedd er budd
Cronfa Atgyweiro Sant Tegai gwnaethpwyd
elw o £160. Diolch i Dorothy, Ann, Rhian,
Hazel ac Edmond am drefnu'r weithgaredd
ac i bawb o Sant Tegai ac o eglwysi
Tregarth a Glanogwen a fu'n cefnogi'r
standin mewn unrhyw ffordd. Cynhelir y
standin nesaf ar ddydd Mercher Mehefin
7fed. Rydym bob amser yn gwerthfawrogi
unrhyw eitemau newydd, sef teganau plant,
anrhegion bychain neu lyfrau i werthu ar y
standin.

Cyngerdd Talentau Tegai

Bwriedir cynnal cyngerdd o dalent lleol yn
Eglwys Sant Tegai Llandygai ar nos Wener
Ebrill 28ain am 7 o'r gloch yr hwyr. Tocynnau
£5 wrth y drws a'r elw at Gronfa Atgyweirio
yr eglwys. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Sant Tegai yng ngynnod y Garawys a'r Pasg

Y drefn arferol yw: Gwasanaethau'r Sul
cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30
y. b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y
mis am 11 y.b.
Gwasanaethau arbennig yn yr eglwys :
Dydd Iau Cablyd (Ebrill 13eg) 6 o'r gloch
Dydd Gwener y Groglith (Ebrill 14eg) 9.45 y
bore, Gorymdaith Y Groes sef taith gerdded
o 3.5 milltir
Sul y Pasg (Ebrill 16eg) 10.15 Cymun
Bendigaid
Pumed Sul yn y mis (Ebrill 30ain) 10.30
Yr Offeren ar y cyd gydag eglwysi St Mair
Tregarth a St Cross Talybont

Cwrs Garawys Bro Ogwen

Cynhelir cwrs i aelodau eglwysi ym Mro
Ogwen i drafod themau'r Garawys bob
nos Fercher cyn y Pasg am 7 o'r gloch yn
Ficerdy Pentir. Y Tim Gweinidogaethol
sydd yn arwain y drafodaeth. Croeso i
bawb fel arfer. Braf gweld y cwrs yn cael
cefnogaeth gan yr eglwyswyr.

Cydymdeimlad

Bu colled fawr i gynulleidfa Sant Tegai
ac i'r pentref gyda marwolaeth Mrs Ethel
Davies (cyn-ohebydd yr eglwys i Llais
Ogwan). Roedd yn aelod ffyddlon a
gweithgar o'r gynulleidfa a'r cyngor plwyf
eglwysig ac yn ei swydd fel sacristan
gofalodd yn gydwybodol a thawel am
y paratodau ar gyfer gwasanaethau.
Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i mherch
Nia, ei mab yng nghyfraith John ac â'r
teulu oll.

Sefydliad y Merched, Llandygai

Cawsom gyfarfod ar bnawn Mercher
22ain o Fawrth yn Neuadd Talgai. Sylwer
mai am 7:00 o'r gloch y byddwn yn
cyfarfod hyd at yr Hydref.

Irene Moran oedd lywydd y mis a
chroesawyd bawb. Anfonwyd ein cofion
cynnes at Eira sydd wedi cael triniaeth
yn yr ysbyty ac at Hefina hefyd sydd
yn gwella yn ei chartref. Braf oedd cael
croesawu Sylvia Humphreys yn ôl atom.

Darllenodd Sheila funudau'r cyfarfod
Chwefror a llythyr y ffederasiwn. Sylwyd
a rei gynnwys a'I drafod.
Y gwr gwadd oedd Mr Rhion Pritchard a'I
bwnc oedd “Yr adar yn ein hardal.”
Siaradodd yn ddifyr iawn am y radar
oedd yn prnhau a'r rhesymau posib,
hefyd y radar oedd yn ymddangos eto
wedi prnhau ar un amser. Roedd ganddo
sleidiau hyfryd o'r adar a'i wybodaeth yn
eang.

Diolchwyd iddo am bnawn difyr gan
Irene ac yna mwynhau paned, wedi ei
darparu gan Anne a Betty, a sgwrs.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal “cut throat”)

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig
Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW
☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Eglwys Unedig Bethesda

Daliwn i gael oedfaon ardderchog gyda chynulleidfa dda i bob un. Anfonwn ein cofion at bawb sy'n methu dod i'r oedfaon.
Mae'r Ysgol Sul wedi bod yn ymarfer at oedfa Sul y Blodau ac wedi bod yn brysur iawn. Mae'r baned ar ôl oedfa'r bore yn llywddiannus iawn gyda'r oedolion a'r plant yn cael cymysgu a sgwrsio.
Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan ofal Emyr a chafwyd cyfle i rannu profiadau. Diolch Emyr. Cofiwch am y baned fore Iau ac mae croeso i unrhyw un ymuno.

Y Gymdeithas

Llywyddwyd y cyfarfod gan Joe a gyflwynodd ein gwraig wadd atom, sef Gwenan Gibbard y gantores a'r delynores. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog yn ei chwmmi a phawb yn ei chanmol. Diolchwyd iddi gan Angharad a Barbara Jones, Barbara Owen ac Angharad oedd yn gyfrifol am y baned.

Cyhoeddiadau

- Ebrill 23ain Parch Pryderi Llwyd Jones
10:00 y bore
- Ebrill 30ain Parch Huw J Hughes
- Mai 7fed Parch R. O. Jones
- Mai 14eg Y Gymanfa

Eglwys Crist Glanogwen

23.04.17: 11yb: Cymun Bendigaïd
30.04.17: 11yb: Cymun Bendigaïd

Gwasanaethau mis Mai:

Cymun Bendigaïd pob dydd Sul am 11:00, a Gwasanaeth Cymun pob Dydd Mercher am 10:30 gyda coffi i ddilyn. Croeso i bawb ymuno â ni.

Sefydliad y Merched Carneddi

Cyfarfod 1 Mawrth

Ar ôl darllen y cofnodion a'r llythyr misol fel arfer, noson o ddatlu oedd hon.
Nid yn unig dathlu gŵyl ein nawdd sant, Dewi, ond hefyd dathlu penblwydd Sefydliad y Merched Carneddi yn 80 oed.
Paratowyd bwffe ar ein cyfer gan Gaffi Coed y Brenin yn ogystal â chacen wedi haddurno gan Karen o'r caffi. 'Roedd y camerau allan yn llu pan dorwyd y gacen gan aelod hynaf y sefydliad, sef Mrs. Myfanwy Jones. Roedd pawb wedi mwynhau'r noson yn fawr iawn. Rhoddwyd y wobwr lwcus gan Nancy Thomas ac fe'i henillwyd gan Jean Hughes. Diolchwyd i bawb gan Gwyneth.

Cyfarfod 6 Ebrill

Rhoddodd ein llywydd y croeso arferol i'r aelodau ar noson oedd yn mynd i fod yn wahanol i'r arfer. Cyn cyflwyno'r wraig wadd aeth ymlaen i ymddiheuro ar ran tair o'r aelodau oedd yn methu bod gyda ni, sef Mrs. Jean Hughes, Mrs. Nancy Thomas a Rosemary. Cawsom glywed gan un o'r aelodau fod Heddwen Jones wedi dod adref o'r ysbyty ac'rydym yn cofio ati yn fawr.
Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth Morris a'r llythyr misol gan ein llywydd. Er ei fod yn faith roedd angen ei drafod.
Ein gwraig wadd am y noson oedd Carol, sydd yn ysgrifenydd y ffederasiwn yng Nghaernarfon. Hi sydd yn gyfrifol am y llythyr misol a'i gynnwys sydd mor drylwyr bob amser, mae'n rhaid dweud.
Athrawes mewn cyfrifiaduron oedd Carol cyn iddi ymddeol ond mae'n dal i ymddiddori yn y pwnc, ac yn dysgu aelodau o Sefydliad y Merched sut i ddefnyddio cyfrifiaduron.
Heno ei thasg oedd ein dysgu ni sut i chwarae Boccia !! Bowlio ar garped yw'r ffordd orau i'w ddisgrifio ac 'roeddem hefyd yn cael eistedd i'w wneud !! Cawsom hwyl fawr ar y noson ac 'roedd Carol yn ein hannog ni i ymuno yn y timau sydd gan y sefydliadau.
Diolchwyd i Carol gan Rita, a'r merched am y baned. Enillwyd y wobwr lwcus gan Rita yn rhodd gan Margaret Williams.



Prawf Gyrru

Mae Ceri Mai Adl, 36 Abercaseg, wedi llwyddo i basio ei phrawf gyrru ar y cynnig cyntaf. Llongyfarchiadau oddi wrth Dad a Mam, Taid a Nain a'r teulu i gyd.

Ysbyty

Cofion cynnes a gwellad buan at y cyfeillion a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, da deall bod rhai wedi dod gartref erbyn hyn, Mrs Joan Griffiths, Glanffrydlas; Mr Frank Thomas, Glanogwen Mrs Heddwen Jones, Rhos y Coed; Mrs Ann Thomas, Maes y Garnedd; Mr Dewi Hughes, Glanffrydlas; Mr Clifford Smith, Adwy'r Nant.

Penblwydd yn 70 oed

Ar Fawrth 20fed dathlodd Mr Vernon Owen Abercaseg ei ben-blwydd yn 70 oed. Llongyfarchiadau i Vernon a Gobeithio y cei amser da yn Sbaen.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Gwyn a Christine Edwards, Gwesty'r Douglas a'r achlysur hapus o ddod yn Daid a Nain i Reuban

Priodas Aur

Ar Fawrth 11eg dathlodd Ian a Brenda Hughes, Rhes Gordon eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau mawr i chi a pob dymuniad da. Hefyd ar Fawrth 7fed dathlodd Brenda ei phenblwydd yn 70 oed, gobeithio i chi fwynhau y parti nos Wener, Mawrth 30ain yn y Clwb Criced.

Gorffwysfan

Cofiwch am y wibdaith i Gaer dydd Mercher, Ebrill 26ain, cychwyn o'r Stryd Fawr ger y gofeb am 8.30 y.b.

Gair o Ddiolch

Dymuna Wendy, John, Michael, Mandy a theulu y ddiweddar John Owen Roberts, Allt Pen-y-Bryn ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, galwadau ffôn, cardiau a'r ymweliadau a dderbynwyd ac am y rhoddion hael tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.
Diolch yn arbennig i'r Parchedig Gwynfor Williams a Mr Vernon Owen am y gwasanaeth, ac i Mr Wyn Williams ar yr Organ. Hefyd i'r ymgymherwyr H.O Davies am y trefniadau trylwyr a theimladwy.

Diolch

Dymunai Carys, Dylan, Sean a theulu y ddiweddar Dafydd McCartrer, Clydfan, 1 Ffordd Coedmor, Bethesda, ddiolch o gallon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid arbennig. Diolch i staff ward Alaw Ysbyty Gwynedd am eu gofal tyner ohono, hefyd diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd tug at ward Alaw. Diolch i'r parchedig Geraint Roberts am ei eiriau teimladwy dydd yr angladd ac i'r cyfarwyddwr Gareth Williams am ei drefniadau trylwyr.

Diolch

Dymunai teulu y ddiweddar Mair Elizabeth Scott ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ac am y cardiau a rhoddion er cof tuag at cartref Preswyl Gwynfa Bontnewydd lle gafodd ofal arbennig. Diolch hefyd i'r parchedig Geraint Roberts am y gwasanaeth ac i Gareth Williams am y trefniadau proffesiynol a theimladwy.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Bore Coffi – Bore Sadwrn, Ebrill 29ain yn Canolfan Cefnfaes 10.00yb – 12.00yp

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Croeso i'r ardal
Croeso i'w cartref newydd yn Stryd Goronwy i Efa Dyfan a Sara Wyn Parry. Rydym yn gobeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni yma yn y Gerlan.

Hen nain
Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau i Pam Roberts, Ciltrefnus, ar ddod yn hen nain. Ganed mab bychan, Oliver Vaughan, i'w hŵyr, Ishmael, a'i bartner, Lowri.

Llongyfarchiadau, hefyd, i Carys, merch Pam, sy'n byw yn Nhanysgafell, ar ddod yn nain. Rydan ni'n siwr fod yr holl deulu wedi gwirioni'n llwyr efo'r babi newydd.

Gadael y Gerlan
Rydym yn dymuno'n dda i Mike, Lowri, a Nel Medi sydd wedi gadael Stryd y Ffynnon a symud i fyw i'r Carneddi. Pob hwyl i chi yn eich cartref newydd.

Genedigaeth
Rydym yn hapus iawn wrth groesawu ychwanegiad i deulu Gwion a Lisa yn Stryd y Ffynnon. Ganed mab bychan, Deian Sion, ddechrau Ebrill, yn

frawd bach i Aron, Osian, a Jac. Llongyfarchiadau mawr i'r holl deulu, a phob bendith ichi i'r dyfodol.

Eisteddfod yr Urdd
Bu rhai o blant yr ardal yn llwyddiannus gyda gwahanol bartion yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Da iawn chi! Rydym yn dymuno pob llwyddiant ichi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr ddiwedd Mai.

Brysiwch wella
Treuliodd Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, gyfnod byr yn yr ysbyty, ond mae bellach adref yn ôl yn ein plith. Rydym yn

dymuno gwellad llwyr a buan ichi, Tecwyn, gan yrru ein cofion cynhesaf atoch.

Dathlu Priodas Aur
Llongyfarchiadau mawr i Richard a Rhiannon, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio'n fawr ichi fwynhau'r dathlu gyda'r teulu yn Ogwen Banc, ac fe ddymunwn pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Pen blwydd hapus
Pen blwydd hapus i Len Williams 16 Ffordd Gerlan ar ddathlu ei benblwydd yn 94 ar Fawrth 22ain.



CHWILAIR

HEN WLAD FY NHADAU
Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG GAIR SYDD YN YMDDANGOS YN EIN HANTHEM GENEDLAETHOL. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn MAI 2. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Diolch am eich atebion ar gyfer chwilair Mawrth. Yn anffodus roedd sawl un wedi darganfod HIR neu LAS fel ateb. Felly rhag eich cam arwain gyda'r chwilair y mis yma, mae pob gair gyda phump neu fwy o lythrennau. Braf oedd derbyn ateb gan hen ffrind i fy nhad oedd yn y busnes atgyweirio ceir. Gobeithio eich bod yn mwynhau eich hun ar Ynys Môn. **Dyma atebion Mawrth:-** Abercaseg; Brynteg; Bryntirion; Coetmor; Ffrydlas; Glanrafon; Goronwy; Hen Barc; Lon Ddwr; Morgan; Pant Glas; Pen y Bryn. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Mair Williams, Mynydd Llandegai; Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Mrs M. Jones, Bangor; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Llewela O Brian, Bangor Uchaf; Arwyn Griffith, Gerlan; Ogwen Griffith, Gerlan; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Myra a Gwilym Evans, Niwbwrch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Olive Williams, Bethesda; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Alwena Williams,

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
T	S	V	S	H	H	E	I	M	D	B	G	V	H	M	D	W	H	U	Z
H	M	N	X	V	A	E	D	D	E	Y	N	A	P	A	U	Q	U	S	O
E	F	H	T	R	P	Y	N	R	Q	Z	F	G	R	H	C	U	M	W	N
L	O	A	R	Y	R	I	S	I	A	S	Z	F	U	T	F	D	X	U	P
Y	W	D	E	R	H	E	C	Q	A	H	W	E	R	H	O	Y	E	E	G
N	E	A	I	O	I	M	H	E	P	I	T	T	C	Y	B	B	C	U	U
J	P	U	S	N	L	T	M	I	V	V	T	D	C	B	N	B	F	R	F
O	G	J	I	V	I	I	R	R	X	I	M	H	H	T	T	O	S	K	O
P	W	O	O	R	C	M	K	C	B	O	R	C	X	V	R	Y	H	S	T
M	L	R	D	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	W	O	S	C	R	A	I
X	N	I	D	L	X	J	J	M	B	W	T	E	X	M	L	D	X	K	F
U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	N	L	R	O	C	T	D
G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	O	Y	C	L	N	L	R	V
O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	I	H	J	Q	U	L	L	F	S
V	T	X	G	W	R	O	L	E	U	G	C	G	H	S	O	L	Z	E	A
F	X	I	W	C	H	A	N	T	O	R	I	O	N	N	T	Z	H	K	V
A	D	A	L	M	I	E	D	W	E	G	B	N	Y	K	A	D	S	I	K
O	G	D	H	B	S	I	N	U	R	O	X	W	A	G	X	R	A	E	E
K	K	D	A	N	T	E	O	G	W	B	S	M	B	J	R	F	U	N	K

Tregarth; Myfanwy Jones, Gaerwen; Glenys Roberts, Hen Barc; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Lois Angharad Hughes, Gerlan; Alwyn Rowlands, Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Wendy Eccles, Llanllechid; Elfed

Bullock, Maes y Garnedd; Glyn Davies, Llanfairpwll; Mair Jones, Ffordd Bangor; Catherine Aran, Caerberllan; Carys Parry, Glanogwen. **Enillydd Mawrth oedd:-** Barbara Anne Conlan, 53 Glanogwen, Bethesda, Gwynedd. LL57 3PG

Gair o Gariad

Dymuna Theatr Bara Caws a Chwmni Uninvited Guests eich gwahodd i ddigwyddiad theatrig unigryw yn Neuadd Ogwen ar 19 Mai am 7.30. Tocynnau oddi wrth Fflur ar 07767473209 neu We-fan Neuadd Ogwen. Pris tocyn: £12 – gan gynnwys gwydraid o wîn neu ddŵr pefriog.

Dewch i gynnig llwnc destun i gariadon o bob math...cariadon hen a newydd. Cariad rhwng dau, rhwng dwy, rhwng plant a'u rhieni, rhwng ffrindiau, rhwng perchnogion a'u hanifeiliaid ... a chawn rannu atgofion melys, dwys a doniol...

Wedi i chi brynu eich tocyn byddwn yn cysylltu i roi'r cyfle i chi gyflwyno cais am gân gan nodi pam fod y darn hwn o gerddoriaeth mor bersonol i chi, a gall eich 'Gair o Gariad' gael ei blethu i gorff y sioe. Gellir cyflwyno pob cais yn ddiennw os dymunwch, mae'r ffurflen ar gael ar.....

Gan fod hwn yn ddigwyddiad unigryw nifer cyfyngedig o seddi sydd ar gael - 40 yn unig - felly cyntaf i'r felin fydd hi - peidiwch â chael eich siomi!

"... sioe anhygoel... y peth gorau dwi 'erioed wedi weld...diolch yn fawr iawn am berfformiad rhagorol...dyma theatr sy'n wirioneddol llonni'r galon".

Perfformwyr: Lisa Jên Brown a Carwyn Jones
Cyfarwyddo: Betsan Llwyd a Jessica Hoffmann

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067 marred567@btinternet.com

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Elfed a Carol Roberts, Hafod, Glasinfryn, ar ddod yn nain a taid am y tro cyntaf. Croeso mawr i Jack, plentyn mab Elfed a Carol, sef Barry sy'n byw gyda'i wraig yn yr Amwythig.

Perfformiad Opera

Ar 7 Mawrth perfformiwyd *The Bartered Bride*, opera gan y cyfansoddwr o Bohemia, Smetena, gan Opera Prifysgol Bangor gyda Cherddorfa Symffoni Prifysgol Bangor. Y Cyfarwyddwr Cerdd oedd Marian Bryfdir o Bro Eryri, Waen Wen a'r Cyfarwyddwr Llwyfan oedd ei mab, Jamie-Glyn Bale. Aeth nifer o'r ardal i weld y perfformiad ac i gefnogi Marian. Y mae hi'n adnabyddus yn y byd cerdd fel athrawes llais. Y mae Marian a'i gŵr Dewi yn gefnogol iawn i weithgareddau lleol ac yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned.

Hysbysfyrddau

Mae Cyngor Cymuned Pentir, yn garedig iawn, wedi gosod hysbysfwrdd yng Nghaerhun ac yng Nglasinfryn i arddangos poster ayb. Os hoffech arddangos poster yn yr hysbysfyrddau cysylltwch â Mair Griffiths ar gyfer hysbysfwrdd Caerhun, ac Ann Williams ar gyfer hysbysfwrdd Bro Infryn.

Cylch Glasinfryn

Yn ystod mis Chwefror daeth nifer fechan ohonom at ein gilydd yn y Ganolfan

i gymdeithasu, cael sgwrs a phaned, ac fel y wnaethon ni ddarllen yn y Llais diwethaf, penderfynwyd ffurfio cymdeithas newydd dan arweiniad Mair Griffiths o'r enw Cylch.

Y syniad ydy cynnal cyfarfodydd anffurfiol ar gyfer unrhyw un yn yr ardal sydd â diddordeb mewn cymdeithasu. Fe gawson ni ddechrau ardderchog i'r fenter newydd trwy gynnal noson Gŵyl Ddewi. Trefnwyd noson o adloniant gan Marian Bryfdir, un o aelodau'r Cylch, a chawson ni ein diddanu gan ddwy seren y dyfodol sef Aziliz Kervejant a Ceri James. Dyma ddwy eneth sydd â dawn canu wych a'r ddwy yn cael eu hyfforddi gan Marian. Mae dyfodol disglair i'r ddwy a diolchwn a dymunwn bob dymuniad da iddynt.

I ddilyn, cawsom wledd wedi ei baratoi gan yr aelodau - llond bol o fwyd, ac amser i sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le!

Trefnwyd rhaglen am y tymor gyda siaradwyr a theithiau hynod o ddiddorol i edrych ymlaen ato. Cynhelir y cyfarfodydd yn ddwyieithog. Byddwn yn cyfarfod ar yr ail nos Fercher yn y mis am 7 o'r gloch yn y Ganolfan. Os oes gennych ddiddordeb ymunwch â ni yno, neu cysylltwch â Mrs Mair Griffiths ar 01248 352966 am wybodaeth bellach. Breast Cancer Wales/Gofal y Fron fydd testun ein cyfarfod ar Mai 10.

Mae sefydlu menter newydd fel hyn yn gyffrous. Dewch draw i fod yn rhan o'r cyffro!

GWASANAETH GLANHAU HUGHES

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.

Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV

Golchi 'meddal' - patios, "decking" a llwybrau

Golchi toeau ystafelloedd gwydr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk

Pentir

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 - Mis Chwefror 2017
1af. Rhif 22. Ann Williams Rhiwlas
2ail. Rhif 40. Nesta Barton Rhiwen
3ydd. Rhif 33 Nia Roberts Rhiwlas

Clwb 100 - Mis Mawrth 2017
1af. Rhif 48. Mai Williams Rhiwlas
2ail. Rhif 51. Alwyn Williams Rhiwlas
3ydd. Rhif 6. Lyndon Miles Pentir

Gwellhad
Fel Eglwys anfonwn gofion cynnes at Eira Crocombe, Tregarth sydd yn gwella gartref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, dymuniadau gorau Eira am wellhad buan.

Bore Coffi
Bore Sadwrn y 1af Ebrill cynhaliwyd Bore Coffi yn Canolfan Cefnfaes, roedd yn llwyddianus a braf oedd gweld nifer wedi ymgynull. Diolch i drigolion y fro.

Garddwest
Bydd ein garddwest flynyddol yn cael ei chynnal eleni ar y 27 Mai am 1.30yh yn Y Ficerdy, Pentir. Bydd amrywiol stondinau. A cystadleuaeth, sef i blant hyd at 10 oed a 11-16oed creu darlun och ddewis cyfar i ffon symudol, ag i oedolion arddangosfa o flodau mewn cwpan neu fug, bydd y cystadlaethau yn cael ei beirniadu ar y diwrnod. Croeso cynnes i chwi ymuno a ni.

Gwasanaethau'r Sul
Mae'r gwasanaethau am 9.45yb
23.4.17. Boreol Weddi
30.4.17. Gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys Santes Ann a Mair, Mynydd Llandegai am 10yb
07.5.17. Cymun pawb
14.5.17. Boreuol weddi
21.5.17. Cymun bendigaidd
28.5.17 Boreol Weddi
Mae croeso i chi ymuno â ni.

Ysgol Abercaseg



Straeon a Chloccio
Daeth yr awdur Anni Llŷn a'r clocsiwr Tudur Phillips i'r ysgol i ddarllen a dawnsio â'r plant. Darllenodd Anni rhai o'i straeon a'i cherddi a bu Tudur yn dysgu'r plant i gloccio. Diolch yn fawr i'r ddau.

Ymweld â Storiol
Bu'r plant yn amgueddfa Storiol ym Mangor yn dysgu am arferion glanhau'r tŷ ers talwm. Cafwyd sesiwn o ganu, ateb cwestiynau ac actio â'r actores Leisa



Mererid a chafwyd modd i fyw yn gwisgo dillad ers talwm. Yn ogystal â hyn, cafodd pawb eu tywys o amgylch yr amgueddfa gan ddysgu am hen arteffactau.

Chwaraeon yr Urdd
Cynhelir clwb chwaraeon wythnosol ar gyfer aelodau'r urdd o flynyddoedd 1 a 2. Mae'r plant yn ymarfer gweithio mewn tîm, yn cadw'n heini, yn dysgu sgilaiau pêl ac yn edrych ymlaen i barhau ar ôl gwylia'r Pasg.

Gwisgo Glas
Trefnodd Sgwad Syniadau'r ysgol ddiwrnod i gasglu arian i hepu plant yn ngwledyd Affrica ac Asia i gael dŵr glan i yfed ac ymolchi. Talodd y plant 50c i wisgo dillad glas a chasglwyd £66.

Masnach Deg
Daeth Mrs Helen Davies i'r ysgol i drafod taith y fanana gan ddsu'r plant ynglŷn â phwysigrwydd prynu cynnyrch Masnach Deg. Eglurodd bod prynu'r cynnyrch yn sicrhau cyfleoedd teg i'r cynhyrchwyr. Mae'r plant wedi bod am y gorau yn dod â sticeri Masnach Deg i'r ysgol. Diolch yn fawr i Mrs Davies am ymweld â'r ysgol unwaith eto.

Cadw'n ddiogel
Diolch i Gwawr o'r Frigâd Dân am ddod i ddysgu plant blynyddoedd 1 a 2 am beryglon tân. Bu'n trafod ei gwaith a'i gwisg gan bwysleisio pa mor bwysig yw larymau mwg. Da iawn yr holl blant aeth adref gan atgoffa eu rhieni i brofi eu larymau mwg.

SAMARIAID

Mae Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

Ymgymmerwr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid Bethesda

01248 601052

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Clwb Hanes Rachub

Croesawyd Mr. Dafydd Fon Williams i Glwb Hanes Rachub i sgwrsio am 'Hen Enwau Coll'. Roedd ganddo ddarlith fanwl iawn yn egluro llawer o enwau'r ardal ynghyd ag esboniadau diddorol iawn am eu tarddiadau. Ei bwynt mawr yn ystod y ddarlith oedd i beidio meddwl fod esboniad amlwg i'r enwau e.e. 'Baty Melyn' ger tir 'Y Wern' Talybont; ni fu abaty'n agos yno ac yn bendant nid un melyn! Mae'n debyg fod Baty wedi dod o Boty neu Hafoty, - a hwnnw'n gartref i berson o'r enw Belyn! Does a wnelo Tansgrafall ddim â sgrafell chwaith, - mae'n debyg mai 'sgafall' oedd y gair am silff o dir, felly tŷ neu dai dan silff o dir yw'r ystyr. Dywedodd Mr Williams fod hanes ein hardaloedd ynghlwm wrth yr enwau, ac o'u colli, rydym yn colli talpiau o hanes ein cenedl. Mae llawer o ddyfalu a thrafod yn digwydd am darddiad rhai o'r hen enwau, - yn bendant does dim sicrwydd am ystyron llawer ohonynt, ond mae'n ddiddorol meddwl y gallai Corbri a Cochwillan fod wedi dod o'r Wyddeleg, 'Bowls' [y fferm] o St. Paul's a Ffridd y Clafrdy yn fan lle'r anfonid y gwahanglwyfus! Diolch am sgwrs gwerth chweil! Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, - Ebrill 26, - Ffilm 'Atgofion Bro'.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, Ebrill 26

am 7 o'r gloch yn
Festri Capel Carmel.

Dewch i weld y ffilm
'Atgofion Bro'
CROESO CYNNES!

Nyth Y Gân

Y Fodrwy Briodas Golledig

Llenwai ei llygaid am hir ar ôl hon,
Y fodrwy o aur yn werthfawr a chron
Ar ei bys yr edrychai am hydoedd yn drist
A hwnnw mor llwm fel gwacter ei chist.

Meddylodd am amser flynyddoedd yn ôl
Fel roedd hi mor brysur â'r plant yn ei châl
Yn magu y teulu a'u cadw yn lân,
Eu dysgu i adrodd a rhoi ambell gân.

Ni allai anghofio'r caledi a fu
O geisio cael dodrefn i lenwi y tŷ;
Cael popeth oedd angen i'r plant ac i'w gŵr
Fu'n ymdrech arbennig, mae hynny yn siŵr.

Dôl deigrin pan ddeuai y fodrwy i'w cho'
Ac roedd ei chydwybod yn pigo ar dro,
A chodai cwestiynau i'w phoeni o hyd
Wrth feddwl yn ddwys am y golled mor ddur.

Daeth newid mawr trosti wrth iddi un dydd
Ddarganfod fod coes rhyw hen gadair yn rhydd
Pan syrthiodd o fodrwy o hollt ac ar lawr,
Ac yn dynn am ei bys y mae honno yn awr.

Yr Hen Ast Bach

Mor ysgafn a bywiog oedd hi'n ddeufis oed,
Yn hynod aflonydd ac ar bedwar troed
Yn chwarae a chysgu o fore hyd hwyr
Nes byddai ei chorff wedi blino yn llwyr.

Fe gafodd ei bwydo a'i magu yn dda
A nofio'n yr afon yn ystod yr ha';
Bu'n hoff iawn o'r tennyn a wisgodd sawl gwaith
Yn llaw ei pherchennog gan fynd ar ei thaith.

Dechreuodd arafu wrth fynd ar ei hynt
Gan gwthio yn galed a hi'n fyr o wynt,
Ac edrych i'w lygaid a wnâi'n aml iawn,
A'r rheini yn drist a phob amser yn llawn.

Bu'n boenus i gerdded ar hyd y stryd fawr,
Mor araf y rhoddai ei thraed ar y llawr,
A'r bore canlynol pur llonydd ac oer
Oedd gast bach na welai byth eto y lloer.

Rhodri Mawr

(un o hen arwyr Cymru)

Ei guro ni all geiriau, - a hynod
Fu hanes y brwydrau
Oddefwyd â chleddyfau
O reng y dewr a rhwng dau.

Bugail yr Wyddfa

(Dafydd Morris, Cefn Coch, Deiniolen
yn 80 oed).

Mae'n haeddu'r tir mynyddig - oherwydd
Bu'n hwyrol a diddig
O rannu mannau'r oenig
Yn y brwyn hyd at y brig.

Y Ffynnon

Mae yno dan y meini - a'i harddu
Wna oerddwr wrth godi;
A hanes rêd ohoni
Sy yn awr mor groes i ni.

Y Ffoaduriaid

Anodd yw bod yn unig - i'r rheini
A'u rhannwyd mor drasig
Ar led ac mor lluddiedig
Yno'n ddwys i deimlo'n ddig.
Dafydd Morris

... ..

Gwynedd

Y Gaer Wen a gâr annedd - a chyfoeth
A chof yr hil fonedd;
Nid anghyfiaith iaith ei hedd,
Nid gweiniaid yw had Gwynedd.
Goronwy Wyn Owen

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mawrth cynhaliwyd y cyfarfod deufisol yng Nghanolfan Cefnfaes i glywed yr adroddiadau arferol am Ewrop, Prydain, Cymru Gwynedd a Dyffryn Ogwen e.e. bod posibilrwydd i weithwyr golli rhai o'u hawlio oherwydd Brexit, bod cynnig i ostwng yr oed pleidleisio yng Nghymru i 16, bod dros 10% o ffyrdd Gwynedd mewn cyflwr gwael a bod cynghorau cymunedol y dyffryn yn bwriadu cyflogi rhywun i hel

mân ysbwriel o leiaf unwaith yr wythnos. Dilynwyd hyn gyda thrafodaeth ar y drydedd pont dros y Fenai.

Yn fuan wedyn, aeth rhai o ferched y gangen i gyfarfod ym Mangor i ddathlu diwrnod rhyngwladol y merched.

Yna, yn hwyrach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfod pob aelod Plaid Lafur Arfon, yn bennaf i gadarnhau ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau sirol ar Fai'r 3ydd - bydd

tua deg ohonynt yn Arfon a phump yn Meirionydd/Dwyfor.

Yn ail hanner y mis, cynhaliwyd bore coffi blynyddol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes. Er y tywydd garw, cafwyd mwynhâd a llwyddwyd i wneud elw parchus at dreuliau'r gangen, diolch i'r helpwyr a'r mynychwyr.

Y cyfarfod nesaf fydd y cyfarfod blynyddol ar Fehefin yr 8fed.

Ysgol Tregarth

Newidiadau Staffio

Daeth diwedd cyfnod arall yn hanes Ysgol Tregarth gyda ymadawriad Mrs Alison Halliday. Ymunodd a staff yr ysgol fel Dirprwy Bennaeth yn 2005, ac fe'i penodwyd yn Bennaeth ar Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig ym Medi 2013. Arweiniodd gyfnod llewyrchus a llwyddiannus yn hanes yr ysgol, a hoffem fel staff a disgyblion ddiolch iddi am ei harweiniad a'u hymroddiad llwyr i'w gwaith. Dymunwn bob lwc iddi wrth ymgymryd a'i dyletswyddau fel Pennaeth Ysgol y Gelli, Caernarfon.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Lliwen Jones, a benodwyd yn Bennaeth mewn gofal ar Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig. Rydym eisoes yn eu hadnabod yn dda, gan eu bod eisoes wedi gweithredu fel Pennaeth cynorthwyol yn Ysgol Bodfeurig Edrychwn ymlaen i'w chefnogi ac i gyd-weithio a hi yn ei rôl newydd.

Daw diwedd ar gyfnod Miss Eleri Davies yn Ysgol Tregarth hefyd. Bu'n athrawes boblogaidd ac effeithiol yn Nosbarth Ogwen ers Medi 2015, a llongyfarchwn hi ar ei phenodiad i swydd yn Ysgol Bodfeurig. Bydd yn ymuno a'r staff yno yn dilyn gwyliau'r Pasg.

Llongyfarchiadau i Mr Jonathan Jones a benodwyd yn athro yn Ysgol Tregarth. Bydd yn gyfrifol am blant hynaf yr Ysgol yn Nosbarth Ogwen. Croesawn ef yn gynnes i ymuno a'r tîm yn Ysgol Tregarth.

Profiad Anhygoel

Cafodd 4 disgybl o flynyddoedd 5 a 6 Ysgol Tregarth gyfle i ymuno a disgyblion o sawl ysgol arall Ddydd Gwener Mawrth 31ain, ym Methesda. Cafodd Iestyn, Lynwen, Ffion a Nicola fodd i fyw yn creu anifeiliaid o amrywiol ddeunyddiau y cafwyd hyd iddynt yn y goedwig. Yn ystod y prynhawn o dan arweiniad Bethan Gwanas cawsant gyfle i ddisgrifio a manylu ar eu cymeriad. Diwrnod bendigedig a'r plant yn byrlymu



ac yn amlwg wedi ei cyffroi gan y profiadau a gawsant.

Cwtch

Rydym ni yn Nosbarth Tryfan wedi bod yn brysur yn ymgymryd gyda phrosiect arloesol 'Cwtch'. Prosiect oedd hwn yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu creadigedd disgyblion. Llwyddodd yr arbenigwyr Colin Diamond, Pete Powell a Ed Holden i gwblhau'r prosiect diddorol yma am ddreigiau gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4. Cafwyd cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rapio, dawnsio, actio a chreu pypedau. Bu gwledd gan y disgyblion mewn dau wasanaeth un am y ddraig a'r flwyddyn newydd Tsieiniaidd a'r llall am eu cread 'Cwtch'.

PC Meirion Williams

Cafodd disgyblion yr ysgol sgwrs ddiddorol iawn gyda PC Meirion Williams yn ddiweddar am feddyginiaethau a chyffuriau. Braf oedd eu gweld yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i'w gwestiynau. Diolch yn fawr iawn i PC Meirion Williams am alw draw i ymweld â'r plant.

Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor Ysgol yn parhau i weithio'n frwdfrydig y tymor hwn. Eisoes maent wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r Siarter Iaith a chynnal nifer o ddiwrnodau amrywiol er mwyn codi arian at elusennau amrywiol. Cafwyd sbort a sbri ar ddiwrnod Trwynau Coch a llwyddwyd i godi £112 tuag

at yr achos a £97 wrth werthu trwynau coch yn ystod yr wythnos.

Cyngerdd Dydd Gŵyl Ddewi

Cafwyd dau gyngerdd gwych i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi eleni (un yn y bore a'r llall yn y prynhawn) ac roedd holl blant yr ysgol yn cymryd rhan. Cyflwynodd pob dosbarth amrywiaeth o eitemau oedd yn cynnwys canu, llefaru, rapio a dawnsio gwerin. Mwynhaodd pawb baned a chacen gri yn dilyn y cyngerdd a diolch i'r Cyngor Ysgol am eu gwaith yn paratoi ymlaen llaw ac yn gwerthu raffl ar y diwrnod. Roedd y neuadd wedi ei haddurno'n hyfryd a'r plant yn werth eu gweld yn eu dillad coch a'r wisg draddodiadol Gymreig. Gobeithiwn gynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf hefyd a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

GWEITHIWR CYNNAL

Mae Partneriaeth Ogwen yn chwilio am Weithiwr Cynnal i gasglu ysbwriel, chwynnu ac ymgymryd â thasgau glanweithdra

Cyflog – £7.50 yr awr

8 awr yr wythnos gyda photensial ymestyn yr oriau (oriau hyblyg)

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â donna@ogwen.org 01248 602131

Dyddiad Cau – 22 Mai 2017

Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Ysgol Dyffryn Ogwen



22 Ebrill – Cefnfaes – Cymdeithas Jerusalem.

29 Ebrill – Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.

06 Mai – Cefnfaes – Neuadd Talgai

13 Mai – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.

13 Mai – Caffi Coed y Brenin - NSPCC

20 Mai – Cefnfaes – Gorffwysfan

27 Mai – Caffi Coed y Brenin – Clwb Peldroed Mynydd Llandygai.

01 Gorffennaf – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Dyffryn Ogwen

15 Gorffennaf – Cefnfaes – Cronfa Tracey Smith.

09 Medi – Caffi Coed y Brenin - NSPCC

07 Hydref – Cefnfaes – Plaid Cymru

21 Hydref – Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

28 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.

04 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.

25 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur

25 Tachwedd – Cefnfaes – Clwb Gorffwysfan.

25 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Mai 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Mehefin 10fed
Cae Sioe Dyffryn Ogwen

Gorffennaf 8fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
EBRILL 25
MAI 9, 23 a 30
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI NEUADD TALGAI
6 MAI 2017
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL
13 MAI 2017
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CYMDEITHAS JERUSALEM
SADWRN, 22 EBRILL
10.00 – 12. 00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CYFEILLION YSBYTY GWYNEDD
SADWRN, 29 EBRILL
10.00 – 12.00
MYNEDIAD: £1.00

CAFFI COED Y BRENIN

BORE COFFI NSPCC
13 MAI 2017
10.00 – 12.00
(MAE'R PWYLLGOR YN YMDDIHEURO AM GANSLO BORE COFFI MIS MAWRTH OHERWYDD RHESYMAU ANORFOD.)

Gwobr i'r Adran Gerdd
Derbyniodd Adran Gerdd yr ysgol lythyr gan Gymdeithas y Cerddorion ('Incorporated Society of Musicians') yn llongyfarch yr adran ar gael canlyniadau TGAU rhagorol yr haf diwethaf, ac yn dweud fod y canlyniadau yn gosod yr un o'r adrannau Cerdd gorau drwy Gymru. Cydnabyddiaeth haeddiannol iawn i'r Pennaeth Adran, Mr Hefin Evans, a'r disgyblion am waith ardderchog.

Canlyniadau Eisteddfod Sir yr Urdd
Unawd Llinynnol blwyddyn 7-9 – 1af Gwydion Rhys
Unawd Piano blwyddyn 7-9 – 1af Gwydion Rhys
Bydd Gwydion felly yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenybont ddiwedd mis Mai.
Parti Merched blwyddyn 7-9 – 2il Ysgol Dyffryn Ogwen
Unawd Pres blwyddyn 7-9 – 3ydd Cerys Elen
Unawd Chwythbrennau blwyddyn 10-11 – 3ydd Beca Nia
Deuawd blwyddyn 10 a dan 10 – 2il Elen Wyn a Math Owen
Grŵp Cerdd Dant blwyddyn 10 a dan 19 – 2il Grŵp Ysgol Dyffryn Ogwen
Ymgom blwyddyn 7-9 – 2il Parti Begw Angharad
Ymgom blwyddyn 7-9 – 3ydd Parti Boe-Celyn
Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Ysgoloriaethau Prifysgol
Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr canlynol o'r Chweched Dosbarth sydd wedi ennill ysgoloriaethau i'r Brifysgol :-

Prifysgol Bangor
Elan Môn Gilford
William Owen Parry
Shona Mary Roberts

Prifysgol Aberystwyth
Ellen Thomas

Cymanfa Ysgolion Sul

Annibynwyr Bangor a Bethesda
yng Nghapel Carmel
Llanllechid
Sul, 21 Mai 2017
Am 10.30 yb.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Ymweliad Eurig Salisbury

Daeth Eurig Salisbury, Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth i roi cyflwyniad i flwyddyn 12 ar y cerddi ar fanyleb Uwch Gyfrannol. Bu'n brynhawn prysur a chymorth mawr i'r myfyrwyr gael golwg o'r newydd ar y cerddi drwy arweiniad ffres a gwreiddiol Eurig.



Cwmni'r Frân Wen

Daeth Cwmni'r Frân Wen i'r ysgol yn ddiweddar i berfformio 'Sigl di gwt' i ddisgyblion blwyddyn 7. Yr oedd yn berfformiad meddylgar a theimladwy am ffoaduriaid. Bu'r disgyblion yn gwneud gwaith Celf fel dilyniant i'r perfformiad.

Gwaith Maes Gwyddoniaeth

Treuliodd myfyrwyr lefel A Bioleg blwyddyn 12 ddiwrnod allan yn gwneud gwaith maes yn ddiweddar. Cafodd y diwrnod ei drefnu ar y cyd rhwng Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Tryfan ac Ysgol Uwchradd Bodedern ynghyd ag Angharad Harris, Swyddog Addysg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Nod y diwrnod oedd i fesur bioamrywiaeth planhigion mewn ardaloedd gwahanol, drwy ddefnyddio'r Indecs Simpson. Gwelwyd y diffyg bioamrywiaeth ar gae ysgol yn y bore ac yna ymlaen i gymharu hyn ag ardaloedd mwy cyfoethog Abergwyngregyn yn y prynhawn. Arhosodd y tywydd yn sych a cafodd y myfyrwyr ddiwrnod difyr iawn yng nghwmni Angharad.

Gwaith Maes Daearyddiaeth

Bu criw TGAU Daearyddiaeth Blwyddyn 11 yn ymweld â Lerpwl yn ddiweddar ar waith maes. Amcan y daith oedd canolbwyntio ar pam bod dinasoedd a trefi yn newid a sut y mae modd eu gwella drwy gynllunio a



Criced dan 13 oed



Criw gwaith maes daearyddiaeth

datblygu. Diolch i Ms Ann Crug Jones am drefnu'r diwrnod.

Beicio Cymru

Mae Beicio Cymru wedi bod yn arsylwi potensial Caio Hughes ac Ioan Gray sy'n un o ddau drwy ddwy fil a hanner o ddisgyblion ysgolion Cymru gyda'r gobaith o gael sbrintwyr safon ryngwladol. Pob lwc Caio ac Ioan yn y rownd nesaf.

Pêl droed

Dan 15 - Cwpan Gwynedd, rownd cyn-derfynol. Syr Hugh Owen 1-1 Ysgol Dyffryn Ogwen ar ôl amser ychwanegol, Osian Hughes yn sgorio. YDO yn ennill 3-2 ar giciau o'r smoty. Osian Hughes, Shay Williams ac Aron Thomas yn sgorio a Gethin Hughes yn arbed 3 o giciau Syr Hugh Owen.

Traws Gwlad

Bu Boe-Celyn Jones ac Ioan Emptage yn cynrychioli tîm traws gwlad Eryri ym mhencampwriaethau Cymru. Y ddau wedi gorffen yn 35ain mewn rasys hynod o gyflym ac agos. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

Cyrlio

Mae'r Cyngor chwaraeon wedi archebu set cyrlio dan do. Bu disgyblion blwyddyn 7-9 i gyd yn cymryd rhan mewn gwersi blasu ac wedi mwynhau yn arw.



Criced dan 14 oed

Criced

Llongyfarchiadau i'r tîm criced merched dan 14 sydd wedi ennill cystadleuaeth criced Gwynedd a Môn gan ennill pob gêm. Daeth y tîm yn drydydd yn cystadleuaeth Gogledd Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i dimau criced genethod dan 13 fu'n cystadlu ym mhencampwriaethau Gogledd Cymru ar Ebrill 3ydd yng Nglannau Dyfrdwy. Bu i ddau dîm cryf deithio o'r dyffryn gyda Luned Roberts a Lilly Ward yn gapteiniaid. Daeth tîm 1 i'r brig yn curo pob gêm ar y ffordd i'r gêm derfynol yn erbyn Ysgol Darland. Roedd y gêm derfynol yn agos iawn gyda'r ddau dîm yn batio'n gryf. Ysgol Dyffryn Ogwen oedd yn fuddugol o 3 rhediad yn unig! Mi fydd y tîm yn mynd ymlaen i bencampwriaethau ardal y Gogledd Orllewin yn Bolton ar ddiwedd y mis gyda'r buddugwyr yno yn mynd ymlaen i'r ffeinal yn Lords. Da iawn genod!

山田派系東流修交会空手道

KARATE-DO
Y FFCRDD WAGLAW

KARATE SHUKOKAI BETHESDA
Yn Plas Francon

Dwy wers gynta am ddim

HUNAN AMDDIFFYN - HUNAN HYDER -
FFITRWYDD - DISGYBLIAETH PARCH -
SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO
TRADDODIADOL

* £35 y mis disgownt teuluo!
* Dim Cytundeb, Dim Cyfeirnod Debyd
* Strwythur Graddio Traddodiadol
* Hyfforddwr 4ydd Dan ac Aelod o Dim
Enillodd Gwpan y Byd 2007
* Pennaeth Soke Yamada Sensei
10fed Dan o Japan

NOS FAWRTH A NOS IAU
7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED
8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED
AC OEDOLION

I SICRHAU EICH LLE YN Y CLWB:

FFON: 07595 361624
Ehost: shukokaiwales@icloud.com
Y WE: www.shukokai-wales.com

holfi ni ar
facebook

facebook.com/shukokainorthwales

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partion
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Pen blwydd
Pen blwydd hapus iawn i Bleddyn
Williams, Fron, Cilfodan ar ddathlu
penblwydd arbennig ar 31ain o Fawrth.

LLYTHYR

Cronfa Achub y Plant
Diolch yn fawr i bawb am yr help, y
rhoddion a'r gefnogaeth i'r Bore Coffi
a gynhaliwyd yng Nghefnfaes ar fore
Sadwrn, Mawrth 25ain. Gwnaethpwyd
elw o £400 ar y bore, a daeth £150
pellach i law yn ddiweddarach, felly
mae £550 yn cael ei drosglwyddo i
gangen Porthaethwy o'r Gronfa, sydd
yn cefnogi'r trueiniaid yn Somalia ar
hyn o bryd. Braf gwybod bod trigolion
Bethesda yn gallu bod o help i blant
mewn angen mor bell i ffwrdd.
Diolch o galon i bawb.
Barbara Owen
Orina Pritchard

**SIOP
OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T
a Hwdis Cowbois, Crefftiau, DVDs,
Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl
anghenion siopa! Galwch draw neu
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i
Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Ysgol Llandygai

Wythnos Cŵl Cymru

Dyma wythnos gyffrous ble roedd y disgyblion yn mwynhau a dathlu eu Cymreictod. Daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol yn cynnwys Gwenan Gibbard i ganu caneuon ac alawon traddodiadol gyda'r delyn. Cafwyd perfformiad dramatig ac effeithiol gan gwmni Sioe Mewn Cymeriad-Owain Glyndŵr. Daeth yr arlunydd Catrin Williams i weithio a chreu celf gyda disgyblion hynaf yr ysgol a bydd eu gwaith i'w weld yn fuan yng nghyntedd yr ysgol. Cawsom ddisgo Cŵl Cymru i gloi wythnos hynod o lwyddiannus.

Jambori

Bu disgyblion Dosbarth Awel yn ffodus iawn yn cael cymeryd rhan yn Jambori Siarter Iaith Ysgolion Bangor yn ystod Wythnos Cŵl Cymru.

Aethant draw i Pontio gyda disgyblion ysgolion dalgylch Bangor a chawsant gyfle i ganu gyda Jenny Pearson, mwynhau gwrando a chyd ganu gyda 'The Welsh Whisperer'

a gwrando ar berfformiad hudolus gan Alys Williams gyda Osian Williams ar y gitar. i gloi y prynhawn cawsant eu cyfareddu gan berfformiad Band Jazz Ysgol Tryfan.

Roedd disgyblion Ysgolion Tryfan a Friars o gynorth mawr i rediad y diwrnod ac yn gyfle i ddisgyblion o bob oedran gyd-fwynhau diwrnod bythgofiadwy.

Diolch i brifathro yr ysgol Mr Elfed Morgan Morris am ei waith caled yn sicrhau a chyd-lynu diwrnod llwyddiannus iawn.

Ymweliadau Addysgol

Pili Palas

Aeth disgyblion Dosbarth Gwawr draw dros y bont i ddysgu am drychfilod yr ardd gan mai 'Yn Yr Ardd' oedd thema y tymor. Roedd y tywydd hefyd wedi caniatáu i'r disgyblion gael ychydig amser allan yn yr awyr iach yn y parc cyn dychwelyd adref yn ddiogel a blinedig.

Plas Mawr

Aeth dosbarth Heddd draw i Gonwy i brofi sut oedd y Tuduriaid yn byw, hyn eto yn plethu i thema y tymor ac yn cloi a chadarnhau eu dealltwriaeth o amodau byw y cyfnod.

Sêr Yn Ymweld

Daeth Anti Barbara ac Yncl Neville i'r ysgol ar gais disgyblion Dosbarth Awel i drafod eu profiadau nhw o fyw yn ystod yr Ail Ryfel Byd gan ganolbwyntio yn fwyaf arbennig ar y system o lyfr 'rations' a dogni bwyd.Wrth gwrs rhaid pwysleisio mai ifanc

iawn oedd y ddau yn ystod y cyfnod yma !!!!! Roedd y disgyblion wedi mwynhau y profiad o glywed eu hanes a diolch i'r ddau am eu horiau di-flino yn dod i'r ysgol i ddarllen yn wythnosol gyda'r plant.

Ardal Fyfrio

Mae arlunydd o'r enw Andy Birch wedi bod yn ein cynorthwyo i sefydlu ardal fyfrio ym mherllan yr ysgol. Dyma gychwyn i greu ardal lle gall y disgyblion fynd i eistedd a meddwl a gweddio pan yn teimlo yn drist neu rhywbeth yn eu poeni. Bydd yr ardal yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod yr wythnosau nesaf pan y byddwn yn gosod baine neu sedd lle gallant eistedd yn gyfforddus. Yn ddelfrydol byddai sedd neu faine capel neu eglwys yn addas - os oes unrhyw un yn ymwybodol fod dodrefn ar werth neu ar gael i'n cynorthwyo gyda'r prosiect byddem yn hynod o ddiolchgar o glywed gennych.

Gwasanaeth y Pasg

Cawsom wasanaeth bendithiol unwaith yn rhagor yng nghwmni disgyblion,staff ac aelodau Eglwys Tygai fore Iau olaf y tymor. Roedd y Cyfnod Sylfaen yn ymdrin â stori Y Dair Coeden Fach - un yn cael bod yn bren i breseb y baban Iesu, un yn cael ei defnyddio fel cwch i'r Iesu gael mynd i weddio ar lyn Galilea a'r trydydd yn cael ei defnyddio fel croes iddo ar Fryn Golgotha.I gloi rhan y Cyfnod Sylfaen cafwyd canu a chyd-adrodd yn sôn am y Gwanwyn sef tymor y bywyd newydd.Yn dilyn y Cyfnod Sylfaen cafwyd gwasanaethau byr dramatig gan bob dosbarth yn yr Adran Iau- oedd yn ymwneud â themau y Pasg yn gyffredinol ac i gloi y gwasanaeth cawsom ein swyno gan gôr yr Adran Iau o dan arweinyddiaeth Mrs Emma Davies.

Cynllun Agor y Llyfr

Mae criw gweithgar a brwdfrydig iawn yn ymweld â'r ysgol pob pythefnos er mwyn darllen straeon a pherfformio rhannau o'r Beibl i ddisgyblion yr ysgol gyfan. Maent yn amlwg yn mwynhau cwmni y plant ac mae'n bleser eu croesawu atom, a diolch i Mrs Jennifer Roberts am ei gwaith caled yn cyd-lynu y fenter hon.

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel

1 Ffordd Garneddwen

Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Clwb y Mynydd

Bu aelodau'r clwb yn Fron Goch i gael te prynhawn, ac fe gafwyd diwrnod sych a braf. Digon o amser i bawb fwynhau'r blodau a'r te ardderchog. Bydd y clwb yn cyfarfod yn y neuadd ar y trydydd dydd Mercher yn y mis. Mae croeso i chwi ymuno â ni.

Penblwydd Arbennig

Cafwyd dathliad hapus yn Caerbi. Yr ach-lysur oedd penblwydd Mrs. Pat Hart yn 90 oed ar 17 Mawrth. Dymuniadau gorau ! Ymlaen rwan am y cant oed!!

Eglwys St. Ann a St. Mair

Ebrill 16: 9.45 Sul y Pasg - Cymun Bendigaidd
Ebrill 23: 9.45 Cymun Bendigaidd
Ebrill 30: 10.00 Cymun Bendigaidd
Gwasanaeth ar y cyd.
(Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn).
Mai 7: 9.45 Gwasanaeth Teuluol
Mai 14: 9.45 Cymun Bendigaidd

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau ar foreau Sul. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref cysylltwch ag un o'r wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434).

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd. Brysiwch wella.

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Ysgol Llanllechid

Gwobr Uchel Siryf Gwynedd
Braint oedd cael derbyn gwobr gan y bonheddwr Peter Harlech Jones, sef Uwch Siryf Gwynedd ym Mhrifysgol Bangor, am y gwaith y mae Ysgol Llanllechid wedi ei wneud yn taclo bwllo a chreu amgylchedd ddysgu ddiogel a chyfeillgar. Roedd hefyd yn gydnabyddiaeth o'r rhaglen KiVa yn yr ysgol - sef ein rhaglen gwrth fwlio, a bellach mae'r ysgol wedi cael llawer o gyfleoedd i readru'r arferion da gydag ysgolion eraill ac i athrawon led-led Prydain mewn gwahanol fforymau. Mae'r rhaglen yn cydnabod mai gwan yw pob bwli, a'r unig ffordd y mae'n cael cryfder yw pan fo eraill yn gwrandao a chefnogi neu'n dewis gwneud dim! Mae Ysgol Llanllechid wedi cydweithio mewn partneriaeth agos gyda Phrifysgol Bangor dros gyfnod o bum mlynedd ar yr agweddau hyn, a hoffem gydnabod cymorth arbennig Dr. Suzy Clarkson a'r Athro Judy Hutchings.

Canlyniadau Eisteddfod Sir yr Urdd
Llongyfarchiadau gwresog i Gwenno Beech ar ennill dwy wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod Sir! Camp a hanner! Edrychwn ymlaen at gael y cyfle i gefnogi Gwenno yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai.
Llongyfarchiadau hefyd i Efa Glain ar ennill y drydedd wobwr ar yr unawd Blwyddyn 5 a 6. Llongyfarchiadau hefyd i Lois ac Efa ar ennill yr ail wobwr am ganu deuawd. Da iawn chi!
Hefyd, canodd y parti Cerdd Dant yn soniarus a llongyfarchion iddynt ar ennill yr ail wobwr.
Diolch i bawb a fu'n eu hyfforddi. Celf a Chrefft yr Urdd
Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol:
Gwenno Beech 1af Unawd Bl 2
Efa Glain Jones 3ydd Unawd Bl 5 a 6
Efa Glain Jones 3ydd Unawd Cerdd Dant
Lois a Efa Glain Jones 2il Deuawd Bl 6
Efa Glain a Lois 2il Deuawd



Mwynhau yn Glanllyn



Mrs Helen Williams yn cyflwyno rhoddion

Cerdd Dant
Parti Cerdd Dant 2il Parti Cerdd Dant
Idris John Temple Morris 1af
Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl 5 a 6
Grwp Gruffydd 1af Gwaith Creadigol 2D
Hari Vaughan Jones 3ydd
Gwaith Lluniadu 2D Bl 2
Eban Pritchard 2il Gwaith Lluniadu 2D Bl 3 a 4
Idris John Temple Morris 2il Gwaith Lluniadu 2D Bl 3 a 4
Margiad Temple Morris 2il Gwaith Creadigol 2D Bl 2 ac iau
Grwp Hana 3ydd Gwaith Creadigol 2D Bl 3 a 4
Idris John Temple Morris 1af Gwaith Creadigol 2D Bl 3-6 (AA)
Grwp Elan 2il Gwaith Creadigol 3D Bl 3 a 4
Idris John Temple Morris 1af Gwaith Craedigol 3D Bl 3-6 (AA)

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Efa Glain ar gael ei dewis i berfformio'r prif gymeriad, mewn ffilm fer gan gynhyrchiadau Ie Ie, a fydd yn ymddangos ar S4C yn fuan.

Chwaraeon
Mae'r disgyblion hŷn wedi bod yn brysur yn cystadlu mewn cystadlaethau amrywiol. Llwyddodd y tîm rygbi i gipio'r ail wobwr yn nghystadleuaeth ysgolion Eryri yng nghlwb rygbi Caernarfon. Diolch yn fawr i Mr Michael Dawney, ein myfyriwr dawnus, a Mr Stephen Jones am eu hyfforddi yn ystod y tymor. Cafwyd perfformiadau brwdfrydig gan dimau pêl droed y bechgyn a'r merched yng

nghystadlaethau pêl droed yr Urdd. Da iawn chi am chwarae'n arbennig, gan wisgo crys pêl droed Ysgol Llanllechid, gyda balchder!
Diolch Mrs Willimas
Llawer o ddiolch i Mrs Helen Williams am ddod i'r ysgol i gyflwyno rhodd i bob un o ddisgyblion y Dosbarth Meithrin. Mae'r bwnis bach y Pasg yn werth eu gweld a bu Mrs Williams wrthi am oriau yn eu gwau! Dyma i chi beth yw caredigrwydd! A pha ffordd well o ddweud Pasg Hapus wrth ein disgyblion ieuengaf! Diolch o galon Mrs Williams!
Parchedig John Pritchard
Llawer o ddiolch i'r Parchedig John Pritchard am ddod i mewn atom i gynnal gwasnaethau boreol. Diolch i chithau am eich cymwynasgarwch.

Plas Mawr
Aeth blwyddyn pump yn ddiweddar i Blas Mawr, Conwy i ymweld â thŷ Tuduraidd sydd wedi ei ail-adeiladu. Cawsom groeso gan actores oedd yn efelychu Dorothy, gwraig Robert Wynn perchennog gwreiddiol Plas Mawr. Cawsom ein harwain o gwmpas y tŷ ganddi a chael ymdeimlad o fywyd Tuduraidd. Roedd y tŷ wedi ei addurno'n grand gyda'r rhosyn Tuduraidd a nenfydau addurniedig a cherfluniau o rownd y byd. Cafodd y disgyblion gyfleoedd i wisgo mewn gwisgoedd Tuduraidd a chwarae gemau Tuduraidd. Daeth yr ymweliad â

chyfnod y Tuduraidd yn fyw yng nghôf y plant.
Glanllyn
Tri diwrnod o hwyl a sbri a gafwyd yn ddiweddar yng Nglanllyn yn yr heulwen ar ddechrau Ebrill. Cafwyd profiadau lu gan gynnwys, dringo waliau, adeiladau rafftiau, cyfeiriannau, neuadd chwaraeon, canwïo, bowlïo deg, saethyddiaeth disgo a nofio. Roedd staff y gweithgareddau yn gyfeillgar dros ben a staff y gegin yn ein bwydo... gwledd bob dydd! Roedd y plant yn ymddwyn yn arbennig o dda gyda'i gilydd. Profiad penigamp o gyd-weithio a chymdeithasu. Diolch arbennig i Miss Gwen, Mr Downey a Miss Rachel am ei wneud yn dri diwrnod hwyliog dros ben. Cofiwch edrych ar safwe'r ysgol i weld yr holl luniau!

Ras Moel Wnion
Rydym yn cynnal diwrnod o hwyl, sef mabolgampau ac ati i'r plant ar ddydd Sadwrn, Ebrill 29. Ar y diwrnod hwn hefyd y cynhelir Ras Moel Wnion.
Trwynau Coch
Codwyd £167.27 tuag at yr elusen yma. Da iawn chi blantos!
Dymuniadau Da
Dymuniadau da i Mrs Alison Halliday yn ei chylch newydd ar ôl y Pasg - bu'n braf cael cydweithio hefo chi Mrs Halliday a phob dymuniad da i Mrs Lliwen Jones ar ei hantur newydd!


Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Mae'r sarhad yn nes atoch wrth fynd yn ôl (3)
- 3 Heblaw (3)
- 5 Newynu (4)
- 8 I'w rôl fel merch un o straeon Elizabeth Watkin Jones (5)
- 9 "Gwrid y rhos oedd ar ei -----" (cân 'Ar Doriad Dydd') (7)
- 10 O'i gymysgu, fe duedda i gyrraedd ei lawn dwf (7)
- 12 Ie, odl groes, rhaid i chi ymdrin â hi (5)
- 13 Canu cyfoes adroddllyd, neu gwpwl yn mynd yn ôl (3)
- 15 Newid i bwrpas (5)
- 17 Crwydrwr Aberdaron (3)
- 19 Gall oerfel neu ofn achosi hyn (5)
- 20 Safle peldroed, fel aderyn (7)
- 23 Mae'r cawr o'i le ynghanol ei fro enedigol, a mi gath o gweir iawn (7)
- 24 Rhys Lewis e.e. (5)
- 25 Dyna farnwr dryslyd (4)
- 26 Cartref 23 Ar Draws (3)
- 27 'Y --- Wladgarwr', deawd enwog Gymraeg i denor a bas (3)

I LAWR

- 1 Cnwd gwellt cynnar i'w storio yn borthiant i wartheg (7)
- 2 Disgrifio tatws cynhara'r flwyddyn (5)
- 3 'Ac -----', cyfrol yr athronydd o Bwllheli (1970) (5)
- 4 Swnio fel pe baech yn ymdrechu'n galed i sôn wrth y ddafad am ei chôt (5)
- 5 Rhai llawn a rhai newydd yn eu tro yn yr awyr (7)
- 6 Disgrifiad o giât rydlyd efallai (7)
- 7 Natur y wennol a'r gog (4)
- 11 Mae'n dod o flaen pob un o'r saith (3)
- 14 Nôl pryd mewn amser da (7)



- 15 Dod ynghyd unwaith eto ar ôl amser maith, e.e. dosbarth ysgol (7)
- 16 Hylif mintys neu domato (3)
- 18 Caneuon tymhorol (7)
- 19 Ffraeo a checru (4)
- 20 Swnio fel pentref i Rupert ym Meirionnydd (5)
- 21 Cafodd ei gwrthod 'ar lan hen afon Ddyfrdwy ddofn' (5)
- 22 Mannau (5)

ATEBION CROESAIR MAWRTH 2017

AR DRAWS 1 Cais, 4 Timau, 9 Llanelwy, 10 Chwart, 11 Wŷn, 12 Prysurdeb, 13 Newynu, 15 Dioddef, 18 Molianned, 19 Ein, 20 Gofal, 21 Llydaweg, 23 Soser, 24 Gwgu
I LAWR 2 Annwn, 3 Sêl, 4 Trywydd, 5 Machludiad, 6 Unawdydd, 7 Alltwn, 8 Ateb, 12 Pencadlys, 14 Wylofus, 16 Finegr, 17 Enillwr, 18 Magu, 19 Enwog, 22 Deg

Yr unig gamgymeriadau a gafwyd y tro hwn oedd 'moliannwn' yn lle 'molianned' a 'machludiwn' yn hytrach na 'machludiad'.
Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion cywir : Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Gareth William Jones, Bow Street; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Dafydd Evans, Penisarwaun; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Myra a Gwilym Evans, Niwbwrch; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; J.R. ac M.A Jones, Llanllechid; Doris Shaw, Bangor.
Yr un sy'n mynd â'r wobr y tro yma ydi ymgais Donna Coleby, 39 Belgrave Avenue, Penwortham, Preston PR1 0BH.
Atebion erbyn 5 Mai, 2017 i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Atebion erbyn 5 Mai, 2017 i 'Croesair Ebrill'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Rhiwlas
“Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion sy’n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus” (Rhagfyr 2016)

Dymuna’r llywodraethwyr longyfarch yr ysgol arei llwyddiant o dderbyn adroddiad gadarnhaol gan Estyn yn ddiweddar. Braf yw derbyn cadarnhad fod safonau TGCH yn dda iawn ar draws yr ysgol a fod ein disgyblion yn annibynnol yn eu dysgu ac yn aeddfaed wrth drafod gwaith.

Diolch i’r pennaeth, y staff y disgyblion a’u rhieni am eu cyfraniad i lwyddiant ar adroddiad a phob dymuniad da i’r ysgol yn y dyfodol.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Mawrth 8fed. Roedd yn ddiwrnod hynod o braf pan aethom i ymweld â chanolfan Moelyci. Wedi cael paned a theisen fe aethom am dro ar hyd y Lôn Las a braf oedd gweld arwyddion y gwanwyn, megis Llygad Ebrill. Mae’n debyg fod sawl enw i’r blodyn bychan yma a’r ffefryn gen i yw Aur bach y Gwanwyn. Yn sicr rydym am ymweld eto â’r ganolfan a thro nesaf, efallai fe gawn gerdded drwy’r Twnel Tywyll. Diolch i Ann am wneud y trefniadau.

Cyfarfod Mawrth 22ain. Wedi cael blas ar y cwis a gawsom gan Jean gofynnwyd iddi drefnu un arall ar ein cyfer ac unwaith eto roedd pawb wedi mwynhau

eu hunain. John a enillodd y raffl ac Ann a wnaeth y baned. Diolch i Ann a Jean.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Dawn a John, Bro Rhiwen ar enedigaeth merch fach arall Seirian chwaer faach i Shannon, Sam, Sion, Sky, Shane a wyres fach arall i Nain Maggie. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

O Mam Bach

Yn ddiweddar lansiwyd y gyfrol “O Mam Bach” a gyhoeddwyd gan Wasg y Bwthyn gyda Marred Glynn Jones yn olygydd. Mae’r gyfrol yn dathlu’r fam- y llon a’r lleddf ac yn deyrnged i berson arbennig ym mywydau pob un ohonom. Un a gyfrannodd i’r gyfrol yw Manon Steffan Ros a fagwyd ym Mryn Llus ac sy ‘nawr yn byw yn Nhowyn, Bro Dysynni. Un arall sy wedi cyfrannu yw Eurgain Haf a dreuliodd ei blynyddoedd cynnar yn 7, Rhes Uchaf, symud i Benisarawayn ac yn awr yn byw ym Mhontypridd. Y mae Marred, chwaer Annes, Cefn Braich, ei hun wedi cyfrannu i’r gyfrol ac fel ysgrif “YDaith” gan Eurgain mae ei llen meicro hithau, “Llygaid Mam” yn hynod o deimladwy. Mwynheais y gyfrol yn arw, llenorion adnabyddus a newydd wedi cyfrannu.

Rhaid llongyfarch Manon ar i’w nofel ddiweddaraf “Pluen! gael ei dewis ar restr fer gwobr Tir Na Nog eleni ac yn ei blog y mae Bethan Gwanas yn canmol y llyfr yn arw. Gobeithio y byddi’n llwyddiannus am yr eildro Manon.

Sgio ym Mulgaria

Mae Richard Williams, Caeau Gleision

yn sicr wedi cael blas ar sgio, rhai wythnosau yn ôl aeth gyda grŵp o sgiwyr anabl i Pamporovo ym Mulgaria. Y mae Gethin, y mab ieuengaf wedi ei gymhwyso i fod yn hyfforddwr sgio gyda’r anabl ac roedd yno gyda’ i dad. Mae’n debyg fod yno lethr eithaf serth a elwir Y Wal a Richard yw’r cyntaf i fynd i lawr y lethr arbennig yma newn “Sit -Ski”, gweler y llun. Llongyfarchiadau Richard, edrych ymlaen i’r daith nesaf dwi’n siwr!

Merched y Wawr

Cyfarfod Mis Mawrth Fe aethom i ymweld â Storiel, amgueddfa ac oriel gelf ym Mangor, wedi’i lleoli ym Mhalas yr Esgob, yr ail adeilad hynaf yn y ddinas. Cawsom ein tywys o amgylch gan Shirley, sy’n swyddog addysg gyda chyngor Gwynedd. Mae’n adeilad braf a digon o le yno i arddangos creiriau o’r hen oesoedd i’r presennol. Gellir gweld Cleddyf Segontium o’r ganrif gyntaf a Maen Llantrisant o’r chweched ganrif, Mae rhai o’r arddangosfeydd yn barhaol ac eraill yno dros dro, megis Mametz gan Aled Rhys Hughes a gafodd ei ysbrydoli gan y tirwedd pwysig yma yn hanes Cymru. Arddangosfa aarall hynod o ddiddorol oedd yr un yn dwyn y teitl Glendid a Phurdeb. Yn y cyntedd gellir gweld eitemau o Amgueddfa Natur Brambell, Prifysgol Bangor.

Yn sicr mae Storiel yn hynod o ddiddorol, mynnwch y cyfle i ymweld â’r lle. Diolchodd Einir i Shirley am ein tywys o amgylch ac am roi cefndir y creiriau inni. Diolch i Linda hefyd am drefnu’r noson.

Ysgol Rhiwlas

Llywodraethwyr

Hoffem groesawu ein Llywodraethwraig newydd, sef Mrs Einir Wyn Williams, sydd bellach yn aelod o’r Corff Llywodraethol a diolch hefyd i’r Cynghorydd Hefin Williams am flynyddoedd o wasanaeth fel un o Lywodraethwyr yr ysgol.

Dydd Gwyl Dewi

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 yn brysur yn dathlu Dydd Gwyl Dewi yn Ysgol Rhiwlas eto eleni.

Diwrnod y llyfr

Er mwyn dathlu diwrnod y llyfr eleni cafodd pob un o’r disgyblion gyfle i ddod i’r

ysgol, wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad. Roedd y gwisgoedd yn werth i’w gweld ar y diwrnod. Da iawn chi blant.

Cyfnod Sylfaen

Fel rhan o’u gwaith mathemateg - mesur mae’r Cyfnod Sylfaen wedi bod allan am dro, yn mesur, yn yr ardal leol. Hefyd fel rhan o’u gwaith cawsant fynd ar ymweliad a Moelfre ac Oriol Môn yn Llangefni. Mae Blwyddyn 1 a 2 hefyd wedi bod yn cymryd rhan mewn sesiynau Kerb Kraft ar fore Llun.

Adran Iau

Mae disgyblion yr Adran Iau wedi cael prynhawn Diogelwch

y Ffordd, gyda Shirley o Gyngor Gwynedd, a disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn ymarfer eu sgiliau beicio yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bydd Rhiwlas yn bentref diogelach o ganlyniad i’ch holl waith caled blant. Hoffem groesawu Miss Ceri Jones, fel myfyrwraig i’r Ysgol, o Brifysgol Bangor, ac mae hi’n addysgu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd.

Staff

Hoffem groesawu Miss Emma Hughes a Mrs Karen Clack atom, y ddwy yn gynorthwyyr dosbarth. Miss Hughes yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen a

Mrs Clack yn yr Adran Iau. Mae’r ddwy wedi setlo’i lawr yn dda yn yr ysgol. Mae Yvonne Halstead yn dilyn cwrs CALU, Lefel 4, ar hyn o bryd a dymunwn y gorau iddi gyda’r gwaith hwnnw.

Gwasanaethau Boreol

Mae Andrew Settattree bellach wedi gorffen ei waith, yn ymweld â ni i gynnal Gwasanaethau Boreol, yma yn yr ysgol ond mae Susan Williams (cyn athrawes yn yr ysgol) wedi dychwelyd i gynnal gwasanaethau i’r plant. Diolch i Andrew am flynyddoedd o wasanaethau difyr, yma yn yr ysgol.

gair neu ddau

John Pritchard

Tir Anghyfarwydd

Heno dwi'n sgwennu'r golofn hon. Nid fory, ond heno. Byddai'n golofn wahanol pe gellid gohirio'i sgwennu tan hynny. Ond gan fod y *Llais* ar fin mynd i'w wely, heno amdani. Pwt bach arall i *Llais Ogwan*; hel syniadau, llunio neges, cychwyn arni a gobeithio daw rhyw drefn ar bethau erbyn i mi sgwennu 450 o eiriau. Mae'r amser yn brin, ond dwi'n hyderus y dof i ben â'r gwaith cyn nos. Dwi ar dir cyfarwydd wedi'r cwbl, a minnau wedi gwneud hyn i *Eco'r Wyddfa* ers pum mlynedd ar hugain.

Ond stori wahanol fydd bora fory; popeth ond tir cyfarwydd. Bora fory, dwi'n mynd i wersyll Pontins ym Mhrestatyn. Fûm i erioed yno o'r blaen. Nid hynny sy'n fy mhoeni. A rhag i chi gamddeall, nid y ffaith fod rhaid cychwyn am 7.00 o'r gloch sy'n fy mhoeni! Mynd i gynhadledd Gristnogol ydw i. Dyw hynny wrth gwrs ddim yn bryder i weinidog yr Efengyl. Dwi wedi cael gwahoddiad i sôn am waith Cynllun Efe a'i genhadaeth ymhlith plant a phobl ifanc ym mro *Eco'r Wyddfa*. Rwy'n falch iawn o'r cyfle i wneud hynny. Felly pam y pryder? Mewn gair, mi fyddaf ar dir anghyfarwydd iawn. Yn un peth, bydd yno gannoedd o bobl (a minnau wedi arfer wynebu cynulleidfaoedd bychain). A pheth arall, yn Saesneg y bydd y ddau gyfweliad gerbron y gynulleidfa fawr (a minnau heb arfer trafod gwaith Efe yn yr iaith honno).

Mae'n sefyllfa ddieithr dros ben. Mi rydw i'n nerfus ac wedi poeni am hyn ers dyddiau. Mae'r tir cyfarwydd mor saff a chysurus, ac unrhyw beth newydd a gwahanol yn medru codi ofn. Ac eto, y mae i'r anghyfarwydd ei werth. Mae'n rhaid cyfaddef mod i'n fwy ymwybodol nag arfer o'r angen am gymorth Duw yfory. Mae tuedd i'r cyfarwydd wneud i mi ddibynnu ar fy nerth fy hun yn hytrach nag ar nerth yr Arglwydd. A fedr hynny ddim bod yn beth da i unrhyw un.

Yn aml iawn, yn yr anghyfarwydd y bydd llawer ohonom yn ceisio Duw; yn yr argyfwng, yn yr anawsterau, yn y gofidiau, yn y profedigaethau, yn y pethau sy'n ein dychryn ac yn ein hatgoffa o'n gwendid a'n methiant. Os yw'r anghyfarwydd yn ein gyrru i bwyso ar Dduw, nid drwg o beth mohono. A gorau oll os yw hynny wedyn yn gwneud i ni fod yn fwy tebygol o geisio Duw yn y cyfarwydd hefyd.

Ac eto dwi'n edrych ymlaen at fynd. Mi gaf groeso. Mae'r trefnwyr wedi addo rhywfaint o arian at waith Cynllun Efe. A bellach, wedi sgwennu'r 450 o eiriau, mae gen i amser i baratoi ac i roi sglein ar fy Saesneg erbyn y bora!

Côr y Penrhyn

Aelodaeth yn cynyddu

Mae'r nifer sydd am ymuno â Chôr y Penrhyn yn cynyddu bron yn wythnosol ac mae'n galonddid gweld mai gwŷr ifanc yw'r mwyafrif o'r rheiny. Croeso cynnes i'r rhai a ymunodd dros y flwyddyn neu ddwy ddiwetha' a gobeithio eu bod yn cael yr un budd o berthyn i un o gorau mwyaf llwyddiannus Cymru â'r aelodau eraill.

Cyngerdd gyda thalentau addawol.

Ar Fawrth 24 yng Nghapel Sant Ioan, Llandudno cafwyd cwmni rhai o dalentau ifanc mwyaf addawol Gogledd Cymru pan ymunodd y côr drwy wahoddiad i ganu yng nghwmni John Ieuan Jones, gŵr ifanc neilltuol o dalentog sy'n astudio cerdd ar hyn o bryd yng Ngholeg Cerdd Manceinion. Fel rhan o'i gwrs roedd disgwyl i John Ieuan Jones drefnu cyngerdd ffurfiol a dewisodd gael Côr y Penrhyn fel un o'r prif atyniadau i ymddangos ar y llwyfan gydag ef. Yn ychwanegol cafwyd eitemau gan Erin Rossington, soprano ifanc addawol a Chôr Ysgol y Creuddyn. Yn cyfeilio i John Ieuan ac Erin roedd prif gyfeilyddes Cymru, sef Annette Bryn Parri. Ar derfyn y cyngerdd nododd Annette fod Côr y Penrhyn wedi canu'n wych a'i bod o'r farn fod y sain a gynhyrchir gan y côr y dyddiau hyn

ymhlith y gorau a glywodd gan unrhyw gôr yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae derbyn canmoliaeth mor uchel gan un sy'n perfformio gyda phrif artistiaid y wlad yn gredyd i'n harweinydd, Owain Arwel, ac i'n cyfeilyddes, Fran Davies. Rhaid hefyd longyfarch y ffyddloniaid yn y côr a drodd allan i berfformio ar ddwy noson yn olynol - nos Iau yn Henllys a Nos Wener yn Llandudno.

Fflach Dyrfa Black Dyke

Ar yr un noson â chyngerdd John Ieuan aeth nifer o aelodau'r côr draw i Venue Cymru yn gynnar er mwyn cynnal perfformiad dirybudd o dair neu bedair cân i hysbysebu'r ffaith bod Band Pres enwocaf Ewrop yn dod yn ôl atom i berfformio mewn cyngerdd arall yn Venue Cymru. Rhannwyd taflenni yn hysbysebu'r cyngerdd, sydd i'w gynnal ar Nos Sadwrn, 17 Mehefin, ymhlith y gynulleidfa oedd yno i wrando ar Billy Ocean.

Fel y nodwyd o'r blaen rhaid i bawb sydd am ddod i brif gyngerdd y côr fachu ar y cyfle i brynu tocynnau rhag blaen, gan fod mynd eithriadol ar y tocynnau gorau. Prisiau'r tocynnau yw £20 ac £17. Cysylltwch yn ddi-oed â Walter Williams ar 01248 601167 neu 07988749308. Cyfeiriad e-bost Walter yw waltermenai@yahoo.co.uk

Tatws Dauphanoise

Popty ar 150 gradd am tua 45 munud.
Dysgl wydr neu degan 8" ar draws a 2" o ddwfn.
1 garleg bach o nobyn bach o fenyn (gadewch iddynt oeri cyn ei sleisio).
Pot o hufen dwbl.
800gram o datws.
200g caws Le Gruyere.

Gellwch ddefnyddio ½ caws Le Gruyere + ½ caws Cheddar cryf (wedi'i gratio).

Hanner berwi 900g (1½pwys) o datws. Gratiwch y pishyn garleg a'i gymysgu efo'r menyn. Rhwbiwch oddi fewn y ddysgl a'r ochrau yn hael. Sleisiwch y tatws ar ôl iddynt oeri (ddim yn rhy denau) a'u rhoi mewn cylch yn gorgyffwrdd ei gilydd. Rhowch hanner y caws dros y cwbl,



wedyn defnyddio'r tatws sydd ar ôl lar ben y caws. Wedyn, y gweddi'll o'r caws. Tolltwch yr hufen i gyd rownd ymyl y ddysgl. Rhowch ar y silff ganol yn y popty. Cadw llygad. Os yw'n codi'n sgwigod yn ormodol, trowch wres y popty i lawr dipyn a pheidiwch â gadael i'r wyneb fynd yn rhy frown. Wnewch chi ddim 'difaru'r ymdrech i'w gwneud. Mae'r blas yn fendigedig efo cinio dydd Sul.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion fel ardal at Eira Crocome, Tai Teilwriaid, sydd wedi bod dan lawdriniaeth yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf. Da clywed eich bod adre erbyn hyn ac yn gwella gobeithio. Bu Mair Roberts, Brithdir, Tal y Cae am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Gobeithio eich bod chi’n cryfhau Mair.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Lun, Ebrill 3, yn Festri Capel Shiloh daeth criw ardderchog o’r aelodau ynghyd i fwynhau noson ar y Thema ‘Marathon Llundain’. Dwy ffrind oedd yn ein tywys ar hyd strydoedd Llundain sef Donna Redvers Jones o Ynys Môn, (Donna Frith o Fynydd Llandygai yn wreiddiol), a Fiona Parry o Llainfadyn, Pendinas, Tregarth. Wel am noson wrth fodd pawb oedd yn bresennol. Llynedd bu’r ddwy yn cydreded y räs enwog a gynhelir yn flynyddol gyda miloedd o redwyr o wahanol wledydd ac o amrywiol safon yn troedio strydoedd prifddinas Lloegr.

Roedd y ddwy wedi dod at ei gilydd drwy redeg eu cŵn yn wythnosol drwy goedwigoedd Llanddwyn, a’r ddwy, heb yn wybod i’w gilydd wedi gwneud cais flwyddyn ymlaen llaw i gymryd rhan ym Marathon Llundain. Wedi deall fod y ddwy wedi eu derbyn dyma gychwyn ar fisoedd o ymarfer caled er mwyn paratoi yn drwyadl am yr her oedd o’u blaen. Diolchodd y ddwy yn ddiffuant iawn am gymorth a chydweithrediad eu gwŷr gan fod gan y ddwy ohonynt chwech o blant rhygddynt i ofalu amdanynt.

Daeth y diwrnod mawr ar Ebrill 24 llynedd ac roedd yn brofiad bythgofiadwy i’r naill a’r llall. Cadw hefo’u gilydd oedd y nôd a llwyddodd y ddwy i wneud hynny a chyrraedd y llinell derfyn yn llwyddiannus er yn eithriadol o hapus ond poenus !!

Diolchwyd i’r ddwy am eu dewrder a’u dyfalbarhad gan Alwena Puw. Tybed a fydd rhai o aelodau Merched y Wawr Tregarth yn mentro y flwyddyn nesa ? Mae gennych flwyddyn gyfa i baratoi genod !!

Cynhelir y cyfarfod nesa o’r gangen Nos Lun Mai 8 gyda Sonia Williams yn siarad ar y testun ‘Hyder mewn lliwiau’. Croeso cynnes i bawb.

Capel Shiloh Tregarth

Oedfaon am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol
Ebrill 16 Cledwyn Williams, Bangor
Ebrill 23 Gwyndaf Jones, Bangor
Ebrill 30 Geraint Roberts, Llandegfan

Mai 7 Gwynfor Williams
Mai 14 Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol
Mai 21 Gwynfor Williams

Bedydd

Bedyddiwyd Greta Hywel Evans Hughes yng Nghapel Shiloh Nos Sul, Ebrill 2. Mae Greta yn ferch fach i Ffion a Dion, Fferm Coedhywel, ac yn chwaer fach i Iago, a chafodd ei bedyddio gan ein cynweinidog, sef y Parchedig Philip Barnett sydd bellach yn byw yn Almonderly, ger Huddersfield yn Swydd Efrog. Roedd yn hyfryd gweld llawr y capel yn rhwydd lawn gyda theulu a ffrindiau’r fechan yn bresennol. Pob dymuniad da i’r teulu ifanc.

Adre o’r Ysbyty

Da clywed fod David Ellis Jones, Glan Gors, adre o Ysbyty Gwynedd a’i fod yn cryfhau. Bu trysorydd y capel, sef Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm am lawdriniaeth ar ei llaw yn Ysbyty Gwynedd ac mae’n gwella yn ddyddiol. Diolch am y newyddion da.

Priodi

Llongyfarchiadau i Sin Penri mab Alwyn a Gwen Owen 25, Ffordd Tanrhiw ar achlysur ei briodas â Kirsty Nash o Ynys Môn ar Fawrth 25ain yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Llwyddiant yr Urdd

Daeth Gwenno Grug Fferm Dob yn gyntaf yn yr unawd telyn yn eisteddfod sir yr Urdd. Llongyfarchiadau Gwenno a phob lwc.

Genedigaeth

Ganwyd merch fach i Natalie a Llion Florence Morris Carneddi, ar yr 2il o Fawrth. Croeso i Lwsi Fflur sy’n wyres fach i Dianne a Tommy Florence, Tregarth, ac mae nhw a nain a taid Dolawen wedi mopio’n lân.

Bedydd

Ar ddydd Sul, Ebrill 2il bedyddiwyd Greta, merch fach Ffion a Dion, yng Nghapel Siloh, Tregarth, gan y Parchedig Philip Barnett. Nain a taid ydy Olwen a Tudor, Fferm Coed Hywel.

Ymddiheuriad

Yn rhifyn Mawrth wrth gydymdeimlo â Mrs Edith Hughes, rhoddwyd yr cyfenw Parry i Mair a Gwilym sef mam a thad Marilyn, ond wrth gwrs Morris oedd y ddau. Ymddiheurwn i’r teulu.

Apêl

Os oes gan unrhyw un newyddion o Dregarth a fuasech cystal a’l anfon neu ddweud wrth Angharad. Os nad oes gwybodaeth yna ni fydd y newyddion yn ymddangos. Mae’r cyfeiriad a’r rhif ffôn uchod.

Cylch Meithrin Tregarth

Anti Catrin yn gadael
Yn anffodus mae’n rhaid i ni ffarwelio ag

Anti Catrin. Mae Catrin wedi derbyn swydd llawn amser yn Ysgol Y Felinheli. Hoffem fel pwyllgor ddymuno pob hwyl iddi yn ei swydd newydd a diolch yn fawr iawn am ei holl waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac am baratoi’n drylwyr ar gyfer ymweliad Estyn i’r cylch.

Arweinydd Newydd

Hysbysebwyd swydd yr arweinydd ddechrau Mawrth ac rydym yn hynod filch bod Llinos wedi bod yn llwyddiannus gyda’i chais. Hoffwn longyfarch Anti Llinos ar ei swydd newydd a fydd yn cychwyn ddechrau fis Ebrill.

Ymweliad Estyn â’r Cylch

Rydym fel pwyllgor yn filch o gyflwyno adroddiad monitor diweddar Estyn ar Gylch Meithrin Tregarth. Dyfarnwyd ei bod wedi gwneud cynnydd da, ac wedi ymateb i’r argymhellion a osodwyd yn ystod yr ymweliad llawn yn ôl yn 2015. Mae Catrin a’r staff, gyda chymorth swyddogion cefnogi o Gyngor Gwynedd a’r Mudiad Meithrin, wedi gweithio’n galed dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn rhoi yr argymhellion ar waith yn ddyddiol yn y cylch. Mae’r adroddiad I’w gweld ar wefan Estyn o dan Cylch Meithrin Tregarth. Diolch I’r staff am eu gwaith.

Noson Rieni a Chyfarfod Blynnyddol

Bydd y pwyllgor yn trefnu Noson Rieni a Chyfarfod Blynnyddol ar Fehefin 11eg am 6:00 yr hwyr yn ystafell y cylch. Dyma gyfle i chi fel rhiant sgwrsio gyda staff am eich plentyn, gweld gwaith y dosbarth a holi unrhyw gwestiynnau. Bydd tê a choffi ar gael. Taer erfynnir am gefnogaeth. Mae’n rhaid cynnal cyfarfod blynnyddol i gydymffurfio gyda chyfansoddiad y cylch. Dyma eich cyfle fel rhieni i godi cwestiwn a chlywed beth sydd ar y gweill. Mae’r pwyllgor hefyd yn awyddus i ddenu aelodau newydd gan fod yr aelodau presennol wedi bod wrthi ers dwy flynedd ac yn barod i drosglwyddo’r awennau i dîm newydd. Os am helpu rhwng eich henwau i Llinos. Cofiwch heb bwyllgor does dim cylch.

Priodas Ddeimwnt

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Hywel a Dilys Griffith, gynt o Dregarth a Llanrug, ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar 20 Ebrill. Maent yn byw yn Awstralia ers llawer blwyddyn bellach ac yn darllen Llais Ogwan yn gyson.

DRWS AGORED

Yng Nghapel Shiloh, Tregarth

Bob bore Gwener

O 10 hyd 12 o’r gloch

Dewch i fwynhau sgwrs a phaned
yng nghwmni cyfeillion

Ysgol Pen-y-bryn

NSPCC
Daeth cynrychiolydd o'r elusen NSPCC i'r ysgol ar 31 Mawrth. Yn gyntaf, cafodd yr ysgol gyfan gyflwyniad am ddiogelwch personol ac yna cafwyd gweithdy yn nosbarth Glyder Fach, Glyder ac Elidir. Roedd y cyflwyniad a'r gweithdai yn wych ac roedd negesuon clir wedi'u rhoi ynglŷn â phwysigrwydd rhannu pryderon ag eraill a sut i ddelio gyda sefyllfaoedd a all achosi poen meddwl i rywun.

Masnach Deg
Diolch o galon i Mrs Helen Davies am ddod atom eto eleni i addysgu'r plant am Fasnach Deg a phwysigrwydd cefnogi'r achos da. Difyr oedd dysgu o ble mae gwahanol fwydydd yn dod a sut mae'r cynhyrchwyr yn cael eu trin a pha mor arwyddocaol yw ein bod yn ymwybodol o'r cynnyrch rydym ni'n ei brynu a'r daith mae wedi'i gymryd.

Eisteddfod
Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, boed yn ganu, yn gelf, yn llefaru, yn offerynnol neu'n chwaraeon. Mae'r côr wedi cael trwodd i'r Eisteddfod ym Mhen-y-bont yr Ogwr ac wrthi'n brysur yn trefnu taith i'r De! Braf oedd gweld cymaint yn cystadlu - gormod i'w henwi!!

Diwrnod y llyfr
Eto eleni bu'r plant yn dathlu Diwrnod y Llyfr. Daeth llawr o'r plant i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr - cafwyd amrywiaeth o gymeriadau: o Oompa Loompa i Harri Potter i Frank Lampard! Roedd yn wych gweld cymaint o blant yn mwynhau darllen ystod eang o lyfrau a hynny'n y ddwy iaith.

Cymru Cŵl
Bu'r ysgol yn dathlu 'Cymru Cŵl' ac yn wir gawsom hwyll i ddechrau'r dathlu daeth Cwmni Fran Wen i roi sioe Sigl di Gwt i blant blwyddyn 3 a 4. Yna daeth staff yr Urdd i gynnal sesiwn o weithgareddau



corfforol gyda phob dosbarth. Daeth Mr. Elwyn Hughes at blant blwyddyn 5 a 6 i siarad am Fethesda a hanes yr ardal ac effaith y Gymraeg ar drigolion y fro. Cafodd bob dosbarth weithdy drama gan staff Pontio a daeth Lisa Jên i ganu gyda phawb. Braf oedd cael croesawu Anni Llŷn a Tudur Phillips yn nôl atom - bu Anni'n barddoni gyda'r plant a Tudur yn dysgu pawb sut i gloesio! Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn hynod lwcus o gael Myrddin ap Dafydd yn barddoni gyda nhw ble cynhyrchwyd cerdd gwerth ei darllen o'r enw Balchder Bethesda. Cafwyd llawer o hwyl gyda Neil Maffia, yn ogystal, a bu'r plant yn mwynhau canu clasuron a chreu alaw i'r gerdd a greuwyd gyda Myrddin ap Dafydd. Yng nghanol yr holl brysurdeb, bu'r plant yn dysgu am Gymru a'i hanes a'i henwogion ac am daith yr iaith Gymraeg. Hefyd, buont yn creu cynnyrch Cymreig ac yn eu prisiau ar gyfer eu gwerthu a chael yr elw mwyaf posibl. i goroni'r cyfan, cafwyd p'nawn o werthu'r cynnyrch roedd y plant wedi'i greu. Dyma'r dathliad gorau eto a braf oedd gweld pawb yn dangos cymaint o falchder ac angerdd tuag at eu gwlad a'u hiaith. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd i'r pythefnos.

Plant Pesda
Bu Plant Pesda (Grŵp Effeithiolrwyddyr ysgol) yn addysgu pob dosbarth sut i ddefnyddio'r Chromebooks

newydd. Dangoswyd sut i logio mewn i'w cyfrif Google Education newydd ac yna cafodd Tryfan, Carnedd a Glyder Fach wers ar sut i ddefnyddio Google Slides tra cafodd Glyder ac Elidir wers ar sut i ddefnyddio Google Sheets. Roedd pawb yn canmol Plant Pesda am eu gwaith ac mae pawb rwan yn hyderus wrth ddefnyddio'r adnoddau newydd.

Cwis Llyfrau
Ar 8 Mawrth cynhaliwyd cwis llyfrau 'Darllen Dros Gymru 2016-2017' sef cwis ble roedd plant o wahanol ysgolion o wahanol siroedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Bu plant blwyddyn 3 a 4 yn darllen Siecyn a'r Gêm Rygbi, Saith Selog Antur ar y ffordd gartref, Na! Nel a'r Wrach yn y Coed a phlant blwyddyn 5 a 6 yn darllen Yr Argae Haearn, Mr Ffaiidd a Charlie a'r ffatri Siocled. Bu'r timau'n ateb amrywiaeth o gwestiynau ac roedd pob un o'r plant wedi ymateb yn wych! Y newyddion da yw bod tîm Hannah, Daisy, Robyn a Josh wedi dod yn trydydd! Llongyfarchiadau gwresog i'r pedwar ohonoch ac i bawb a fu'n cymryd rhan.

Oriel Môn
Bu plant dosbarth Carnedd yn Oriel Môn ar 13 Mawrth er mwyn dysgu am Kyffin Williams fel rhan o'u gwaith celf. Bu'r plant yn braslunio ac yna'r edrych ar y crefftweithiau yn yr oriel. Dewisiodd bob plentyn un o luniau Kyffin Williams ac yna efelychu'r llun hwnnw. Cafodd y plant ddiwrnod penigamp!

Marchnad Ogwen

Mae'n siŵr fod nifer o'n cwsmeriaid ffyddlon wedi gweld colli ein Stondin flodau - Blodz. Mae Gillian (sy'n helpu Susan ar y stondin) wedi bod yn eitha' gwael yn ystod y misoedd diwethaf. Newyddion da iawn oedd deall ei bod yn gwella ac y bydd y ddwy yn ôl gyda ni yn y dyfodol agos.

Mae'r Stondin Elusen ar gael Mai, Gorffennaf ac Awst. (Mae'r misoedd eraill i gyd wedi eu llogi). Cysylltwch â'r ysgrifennydd os ydych eisiau llogi'r stondin i gasglu arian at eich achos da.

Stondin 'Un Tro', Gorffennaf, Awst a Medi sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd ar Facebook a Twitter.

Ond, i rai ohonoch sydd heb gyfrifiadur, ac yn methu taro i mewn i'r wefan i weld Stondinau'r Farchnad, dyma beth sydd ar gael -

Llysiau a ffrwythau, nwyddau pren i'r cartref, caws dafad, cynnyrch ffrwythau lleol, siocled, jam, siytni, nwyddau wedi eu gwnïo o bob math, cardiau cyfarch Cymraeg, cacennau, blodau, selsig, caws buwch, gemwaith, mosaic, dillad ffansi plant, ffa coffi wedi eu rhoestio, bara, wyau. Mae cryn dipyn o'r crefftau yn Gymreig eu naws ac yn gallu cael eu personoli yn arbennig i'r cwsmer. Bydd cynnyrch gwahanol ar y Stondinau 'Un Tro' a'r Stondin Elusen wrth gwrs. Un nodwedd hynod bwysig arall yw'r teimlad cymunedol braf sydd yn y Farchnad ar yr ail Sadwrn o bob mis.

Ffansi taro i mewn? Croeso cynnes!

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda ☎ 600853

Priodas Ddeiamwnt
Mae Ifan a Louie Hughes, Tŷ Cerrig, yn briod ers trigain mlynedd i'r mis diwethaf. Anfonwn ein llongyfarchiadau atynt, a'n dymuniadau am adferiad iechyd buan i Ifan sydd, ar hyn o bryd, yn yr ysbyty.

Ysbyty
Mae Liz Humphries, 6 Lôn Ddŵr, wedi derbyn triniaeth gymhleth ar ei throed, sy'n golygu na chaiff ei rhoi ar y llawr am beth bynnag chwech wythnos. Mae'r

teulu i gyd, o'r hynaf hyd y lleiaf, yn fawr eu gofal ohoni, ac yn awyddus i weld Nain yn ôl ar ei thraed unwaith eto.

Eglwys St. Cross
Dymuna ffrindiau ac aelodau Eglwys St. Cross anfon eu cydymdeimlad llwyrat at deulu'r diweddar Ethel Davies, pentref Llandegai, yn eu profedigaeth yn ystod y mis.

Capel Bethlehem
Oedfaon
Ebrill 23: Gweinidog; Ebrill 30: Parchg. Elwyn Jones, alwrn; Mai 7: Parchg. Dafydd Job, Bangor; Mai 14: Gweinidog; Mai 21:

CAU - Cymanfa Ysgolion Sul yng Ngharmel, Llanllechid am 10.30yb. Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso i bawb.

Ysbyty
Bu Miss Dilys Williams yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod. Rydym yn falch ei bod wedi gadael bellach ac wedi ail-gartrefu ym Mhlas Ogwen. Da gweld bod Mrs. Rhiannon Williams yn gwella ar ôl ei chodwm!

Adroddiad Blynyddol
Mae Adroddiad y capel am 2016 bellach wedi ei rannu ymhlith yr aelodau, ac fe hoffai'r swyddogion ddiolch

i bawb am eu cefnogaeth i'r Achos ym Methlehem dros y flwyddyn. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei ofal trosom ac i Mr. Adrian Williams, Bryn, Llandygai, am archwilio'r cyfrifon eto eleni.

Rhannu Taflen
Yn ystod mis Mawrth fe ranwyd dros 250 o daflenni i gartrefi yn ardal Talybont a Llandygai. Rhoddir gwybodaeth am yr hyn sydd yn digwydd ym Methlehem a hefyd yn estyn croeso i unrhyw un i ymuno yn ein hoedfaon ar y Sul. Diolchwn i'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard, am ei gymorth gyda pharatoi'r daflen, ac i'r aelodau fu'n ei rhannu.

Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen

Diolch
Mae aelodau Cangen Dyffryn Ogwen yn dymuno'n dda iawn i Ann Williams, Gerlan. Bu'n arferol ers tair mlynedd ar ddeg iddi gael ei chyfarch fel Y Cyngorydd Ann Williams, gan iddi gynrhychioli Ward Ogwen ar ran Plaid Cymru yn y Cyngor Sir dros yr amser yma. Bu'n gynghorydd gweithgar iawn yn gwrando a chynorthwyo trigolion yr ardal, a chyn iddi orffen ei thymor gwiredddwyd ei breuddwyd i sicrhau palmant o ben Lôn Newydd at Blas Ffrancon. Mae'r Blaid yn Nyffryn Ogwen yn hynod ddiolchgar iddi am ei gwasanaeth a'i holl waith dros yr ardal hon a'i thrigolion. Pob hwyl Ann, ac rydym yn sicr na fydd dy wyneb yn ddieithr yn yr holl foreau coffi a digwyddiadau eraill yn y Dyffryn.

Etholiadau'r Cyngor Sir
Roedd gan Blaid Cymru bedwar ymgeisydd wedi eu henwebu ar gyfer yr etholiad hon. Dafydd Meurig yn Ward Arllechwedd, Dafydd Owen yn Ward Llandygai, Rheinallt Puw yn Ward Ogwen a Paul Rowlinson yn Ward Gerlan/Rachub. Gan nad oedd ymgeisyddion eraill ar gyfer eu wardiau, bydd Dafydd Meurig a Dafydd Owen yn ymgymeryd a'u dyletswyddau fel Cynghorwyr Sir yn mis Mai. Bydd ein dau ymgeisydd arall, sydd wedi bod yn aelodau o Gyngor Cymuned Bethesda ers sawl blwyddyn, yn ymladd i ennill seddau ar Gyngor Gwynedd yn yr etholiad a gynhelir ar ddydd Iau, Mai 4ydd. Dyma lun o'r pedwar



武術 身體 心 並 練
Wu Shu Kwan®
Chinese Kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com \ Gwelyfyr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan

中國 功 夫 身 心 並 練

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GYDA:

- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad
Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN
Stryd Fawr, Bethesda

CANOLFAN TREGARTH
Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru
- Hyfforddwy -

Prif Hyfforddwr - **JAKE FITZPATRICK**
4ydd Gradd Gwregus Du
Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**
3ydd Gradd Gwregus Du

Y FFORDD HAWSA A'R MWYAF EFFEITHIOL I WELLA EICH:
Cryfder • Cyflymdra • Ystywydder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

中國 功 夫 身 心 並 練

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GYDA:

- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART
CAR CARE CENTRE

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dawn y dyn o'r Gerlan
Derbyniais lythyr yn ddiweddar oddi wrth fy nghyfaill, Wyn Thomas, yn wreiddiol o Stryd Goronwy, Gerlan, ond sydd wedi ymgatrefu ers blynnyddoedd yng nghyffiniau Abertawe.

Roeddem yn Ysgol Dyffryn Ogwen efo'n gilydd ond dilynodd y ddau ohonom lwybrau gwahanol iawn ar ôl gadael yr ysgol; yn y byd addysg yr arhosais i ond fel drafftsmon gyda chwmni Saunders Roe ym Meaumaris y dechreuodd Wyn ym myd gwaith, gan droi ei olygon yn y man at wleidyddiaeth. Daeth yn gynghorydd ar Gyngor Dinesig Bethesda yn ŵr ifanc iawn ac yn 1966, penodwyd ef yn asiant i Ednyfed Hudson Davies a etholwyd yn AS Conwy y flwyddyn honno, ac yna cafodd ei ddewis yn ymgeisydd gan y Blaid Lafur i ymladd am sedd Sir Drefaldwyn yn Etholiad Cyffredinol yn 1970.

Wedi symud i ddarlithio yng Nghaerdydd, bu'n cydweithio gyda Gwyn Erfyl ac Emyr Daniel yn Adran Materion Cyfoes HTV a chafodd yrfa lwyddiannus iawn ym myd y cyfryngau. Rhwng 1974 a 1982, ef oedd Cyfarwyddwr Rhaglenni gorsaf radio Sain Abertawe ac yna aeth ymlaen i sefydlu'i gwmni hun, Ffilmiau Tawe, a gynhyrchai raglenni ar gyfer y byd teledu (ac yn eu plith, ar y cyd â'r Prifardd Alan Llwyd, y rhaglen ragorol, 'Adar Drycin', ar Caradog Prichard). Rhaid crybwyll hefyd i Wyn a'i gyfaill, Jeff Towns, gyhoeddi *Dylan Thomas: The Pubs* yn 2013:

... taith farddol o amgylch hoff dafarndai Dylan Thomas yn Abertawe, Talacharn, Cei Newydd, Llundain ac America. Mae darluniau Wyn Thomas yn cyd-fynd â phob lleoliad ac yn bywiogi'r tafarndai.

Y dyddiau hyn, mae Wyn yn treulio amser yn crwydro lân atgof, yn bwrw'i hiraeth

am 'y dyffryn harddaf yn y byd' ac yn hel atgofion am yr hen ardal, drwy ail-fyw (gyda'i wyrion ac aelodau eraill o'i deulu) rai o anturiaethau'i blentynod ymhlith ei gyfoedion yn y Gerlan. Mae'n derbyn *Llais Ogwan* bob mis ac wedi cyfrannu ambell ysgrif a llythyr at ei gynnwys. Caiff flas arbennig ar edrych ar hen luniau – golygfeydd a thrigolion Dyffryn Ogwen – ond mae Wyn wedi mynd gam ymhellach na dim ond mwynhau delweddau pobl eraill. Synnais o ddarganfod fod ganddo ddawn 'gudd' – sef ei allu rhyfeddol i dynnu llun efo brws a phaent. Dw i'n f'ystyried fy hun yn lwcus iawn yn cael copïau gynno fo – ac ambell lun gwreiddiol, hefyd – a thrysoraf yn arbennig y llun diweddaraf a dderbyniais o'i law – llun fy nghartref yn stryd Braichmelyn, trysor yn wir. Dyma gopi du a gwyn o lun lliw rhagorol Wyn, gyda rhif 44 yn un o'r ddau dŷ ar y dde lle ganwyd fi a rhif 47, lle magwyd fi, ar y chwith:



Pan ddeallodd Wyn fod y 'Dyddiadur Digwyddiadau' (dw i wedi bod yn ei gynnwys yn *Llais Ogwan* er mis Chwefror 2013) yn dod i ben yn rhifyn mis Mawrth, awgrymodd yn dylwn sôn ychydig am fy mhrofiadau'n gweithio gyda chwmni'r Purple Motors pan oeddwn yn fyfyrwr yn y Brifysgol ym Mangor. A dyna fydd yn eich disgwyl yn rhifynnau nesaf *Llais Ogwan*.



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis hwn
ER COF
Am
JOHN DAVIES
Milwr Cyffredin 14974
Troedfilwyr Ysgafn (King's Shropshire)
A fu farw
25 - 4 - 1917
Yn 20 oed
Mab Richard a Mary Davies, 4
Garneddwen, Gerlan, Bethesda
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

 600723
Ffacs: 605068

Siop Ogwen
Bethesda

Stori Fyny Grisia
Cynhaliwyd y sesiwn 'Stori Fyny Grisia' gyntaf gan Siop Ogwen ym Marchnad Ogwen mis Mawrth a bu'n llwyddiant ysgubol. Darllenodd yr actores leol Gwen Ellis lyfrau Gwlad y Rwla gan Angharad Tomos a mwynhaodd y plant yn fawr!

Dyma oedd y sesiwn gyntaf o lawer gobeithio, a byddwn yn mynd ati i drefnu cael gwahanol bobl o'r ardal i ddarllen storiâu i blant meithrin a chynradd yn y marchnadoedd. Cadweh olwg am wybodaeth bellach am y sesiwn nesaf ym Marchnad Ogwen, 13 Mai.

Bore Café yng nghwmni Lara Catrin
Diolch yn fawr iawn i Gaynor

Elis-Williams am gynnal sgwrs ddifyr a doniol gyda Lara Catrin am ei llyfr, 'Llyfr Bach Paris' ym mar Neuadd Ogwen ar 18 Mawrth. Roedd y gynulleidfa wedi mwynhau ac roedd yn ffordd dda o'n paratoi at y gêm rygbi gyffrous oedd yn dilyn rhwng Cymru a Ffrainc! Mae tîm Siop Ogwen yn bwriadu trefnu a chynnal sgysrsiau llenyddol eraill gydag awduron dros y misoedd nesaf.

Gwirfoddolwyr Siop Ogwen
Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr cyfeillgar a brwdfrydig i helpu i redeg ein siop gymunedol nid-er-elw. Os oes gennych 3½ i 4 awr yr wythnos i'w sbario bob pythefnos neu bob mis, cysylltwch â ni drwy **e-bost: siop@ogwen.org**

Ysgol Bodfeurig



Tesco
Fel rhan o'r thema Archfarchnad aeth dosbarth Idwal i Tesco Bangor i ddysgu am fwyd. Cafodd pawb y gyfle i flasw bwydydd iach ac siapio bara. Roedd pawb wedi mwynhau cerdded o amgylch y siop yn ogystal a chael cyfle i fynd i weld y becws ac yr oergell. Diolch yn fawr i Tesco am y croeso.

Ailgylchu
Daeth Gwenllian o adran ailgylchu Cyngor Gwynedd i ymweld a dosbarth Idwal er mwyn trafod mathau gwahanol o ailgylchu. Cafodd y plant cyfle i ddiolir nodweddion gwahanol yn y bocsys priodol. Hoffwn ddiolch i Gwenllian am ei ymweliad ac sgwrs gyda'r plant, roedd pawb wedi mwynhau.

Prosiect bwyta'n iach
I barhau â'r gwaith ar fwyd ac archfarchnadoedd aeth plant blwyddyn 2 ati i greu prosiect ei hunain i werthu smwddis i blant yr ysgol. Penderfynwyd ar dri blas ac aethom ati i brynu ffrwythau tra yn ymweld a Tesco. Dyluniodd y plant poster i hysbysebu gwerthiant y smwddis i'w gyrru adref yn ogystal a gweithio allan pris pob un. Roedd y smwddis yn llwyddianus dros ben gyda phawb wedi mwynhau. Roedd plant blwyddyn 2 yn hapus dros ben ar ol cyfri y pres gan sylwi fod na elw o £12. Da iawn chi blant os!

Prosiect Cwtch
Bydd darllenwyr y Llais wedi clywed eisoes am brosiect cyffrous sydd wedi bod yn mynd ymlaen yn yr ysgol sef prosiect Cwtch. Ar ôl tymor prysur o waith daeth prosiect Cwtch i ben gyda perfformiad bendigedig gan blant dosbarth Tryfan. Yn ystod y tymor mae'r dosbarth wedi bod yn gweithio'n galed yn dysgu sgiliau newydd megis creu pypedau ac sut i berfformio fel pypedwyr. Daethpwyd a pob elfen o'r gwaith at ei gilydd ar gyfer perfformiad gwych gyda Cwtch y ddraig a'r dreigiau bach. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cymorth wrth ariannu'r prosiect, i Colin, Ed a Pete am eu gwaith caled gyda'r plant ac wrth

gwrs i'r plant am eu gwaith bendigedig! Os hoffech weld mwy o fideos a lluniau o'r prosiect ewch i wefan yr ysgol a cliciwch ar plant yna albwm.

Cartwnio!
Mae'n sicr fod y mwyafrif o blant yn hoffi cartŵns felly dychmygwch y cyffro oedd acw pan ddaeth y cartwnydd Huw Aaron i roi gwersi arbennig i ddosbarth Ogwen a Tryfan. Mae Huw yn creu cartŵns yn y cylchgrawn Cymraeg 'Mellten' ac fe lwyddodd i ddod a rhai o'r cymeriadau yn fyw o flaen ein llygaid. Mae'n bendant fod ambell gartwnydd dawnus yn yr ysgol ac edrychwn ymlaen i weld mwy o'u gwaith eto yn y dyfodol.

Blas
Cafwyd 'blas' o weithgareddau drama sy'n digwydd yn Pontio yn ddiweddar pan ddaeth Marek o Blas i weithio gyda plant dosbarth Tryfan ac Ogwen. Mae nifer o'r plant eisoes yn mynychu'r gwersi drama yn Pontio ac wedi bod yn rhan o berfformiadau. Rydym yn siwr y bydd mwy o blant yn mynychu'r gwersi yn dilyn y gweithdai yma - profiad gwerth chweil iddynt.

Llyr Titus
Roedd dosbarth Ogwen yn ffodus iawn i gael ymweliad gan yr awdur Llyr Titus. Daeth i'r ysgol i sôn am ei waith fel awdur yn ogystal ag i ysbrydoli y plant gyda'u ysgrifennu creadigol. Cafodd y plant lawer o fudd o'r gweithdy a roedd pawb wedi mwynhau clywed Llyr yn darllen rhan o'i waith iddynt. Diolch Llyr am ein ysbrydoli!

Llwyddiant mewn ysgrifennu
Llongyfarchiadau mawr i Nel o flwyddyn 5 am lwyddo mewn cystadleuaeth ysgrifennu stori fer. Roedd dros 130,000 wedi cystadlu ac mae Nel wedi ei gwneud hi i'r 5000 olaf. Llongyfarchiadau Nel a phob lwc wrth symud ymlaen yn y gystadleuaeth!

Ffarwelio a chroesawu
Ar ddiwedd tymor y gwanwyn mae newidiadau mawr ar droed yn Ysgol Bodfeurig. Rydym yn ffarwelio gyda'n pennaeth Mrs Alison Halliday ar ôl dros dair mlynedd brysur a llwyddianus. Diolch Mrs Halliday am eich holl waith caled yn yr ysgol a phob lwc i chi yn eich swydd newydd yn Ysgol y Gelli - maent yn blant ffodus iawn!

Hoffem longyfarch Mrs Lliwen Jones - pennaeth cynorthwyol Ysgol Bodfeurig, ar gael ei phenodi yn bennaeth ar Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth - rydym yn falch iawn ac yn edrych ymlaen i gyfnod

cyffrous arall yn ein hanes. Croeso hefyd i Miss Eleri Davies fydd yn ymuno gyda ni fel athrawes dosbarth Ogwen.

Diwrnod Trwynau Coch
Cafwyd diwrnod hwyliog iawn yn yr ysgol ar ddiwrnod y trwynau coch. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn cynllunio diwrnod o wisgo coch neu ddillad gwirion, gwerthwyd cacennau a chafwyd cystadlaethau. Llwyddwyd i godi dros £200 o bunnoedd - arian gwerthfawr iawn i'r achos.



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Y Douglas Arms

* Te Cynhebrwng
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 - 12.00
Sul: Prawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00
01248 600219
Gwefan: douglasarmsbethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine